**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AUDIT COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30am DYDD IAU, 18 EBRILL 2013**

**10.30am THURSDAY, 18 APRIL 2013**

Lleoliad / Location

**SIAMBR ARFON/CHAMBER,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENRALLT,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**01286 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 10-04-13

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AUDIT COMMITTEE**

**AELODAETH/MEMBERSHIP (19)**

**Plaid Cymru (9)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Edward Dogan | Huw Edwards | Aled Ll. Evans |
| Chris Hughes | Charles W Jones | Dafydd Meurig |
| Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen | Gethin G. Williams |

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Trevor Edwards | Tom Ellis | John Pughe Roberts |
| | Angela Russell | |

**Llais Gwynedd (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Davies | John Brynmor Hughes | Aeron M. Jones |
| | R.J. Wright | |

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

**Aelod Lleyg/Lay Member**

Mr John Pollard

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor /Council Chairman

**RHAGLEN**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Ionawr a 14 Chwefror 2013, fel rhai cywir. (copi yma- papur **gwyn**)

**5. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2013 (copi yma – papur **melyn**)

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2012/13**

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg
(copi yma – papur **gwyrdd**)

**7. AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL 2012/13 O GYNGOR GWYNEDD**

Cyflwyno adroddiad yr archwiliwr allanol (copi yma – papur **pinc**)

**8. AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL 2012/13 O GRONFA BENSIWN GWYNEDD**

Cyflwyno adroddiad yr archwiliwr allanol (copi yma – papur **glas**)

# PWYLLGOR ARCHWILIO, 29.01.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd);
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Edward Dogan, Huw Edwards, Thomas Ellis, Aled Evans, John Brynmor Hughes, Charles Wyn Jones, Sion Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen a Gethin Glyn Williams; Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Swyddogion:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Huw Williams (Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd), Dafydd Williams (Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E.Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Chris Hughes, Angela Russell a Robert J.Wright: Y Cynghorydd W.Gareth Roberts (Aelod Cabinet Amgylchedd).

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:-

Y Cynghorydd Huw Edwards yn dilyn ei anhwylder diweddar;
Y Cynghorydd Dafydd Meurig yn sgil ei benodi'n aelod o'r pwyllgor hwn i gymryd lle'r Cynghorydd Dyfrig Jones;
Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol) ar gyfer y drafodaeth ar y gyllideb Gwastraff;
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

Yna eglurodd y Cadeirydd, gan fod yr Aelod Cabinet Amgylchedd wedi gorfod ymddiheuro o'r cyfarfod, bod yr Aelod Cabinet Adnoddau yn bresennol i esbonio'r gweithrediad perthnasol ac i ymateb i ymholiadau'r aelodau yng nghyswllt y cyllidebau Gwastraff, Uned Ymgynghoriaeth a Pharcio.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2012, fel rhai cywir.

Awgrymwyd rhifo tudalennau'r cofnodion yn y dyfodol.

**4. ADOLYGIAD CYLLIDEB 2012/13 – GWEITHREDIAD AR ARGYMHELLION YNGLŶN Â GWASTRAFF**

Cyflwynwyd:-

(a) adroddiad y Pennaeth Cyllid yn:-

- gosod allan yr hyn a adroddwyd i'r pwyllgor hwn ym mis Tachwedd, 2012 ar yr adolygiad ail chwarter o Gyllideb Refeniw y Cyngor am 2012/13;
- atgoffa'r aelodau, er mai cyfrifoldeb y Cabinet a'r Aelod Cabinet perthnasol yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor, y dylai'r Pwyllgor Archwilio geisio sicrhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigonol a chefnogi'r swyddog cyllid statudol trwy graffu a herio penderfyniadau'r Cabinet a'u harweinyddiaeth mewn perthynas â threfniadau rheolaethol yr adrannau.

(b) adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Ionawr, 2013.

Nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau:-

- Bod y Cabinet wedi derbyn argymhellion yr Aelod Cabinet Amgylchedd ar y ffordd ymlaen o ran ymateb i'r gorwariant a'r tanwariant a ragwelir yn y maes gwastraff.
- Mai dymuniad y Cabinet oedd cael sicrwydd gan y pennaeth bod y datrysiad yn ddilys ac yn dal dŵr ac y bydd yna gadw golwg manwl ar yr hyn fydd yn digwydd o hyn i ddiwedd y flwyddyn ac yn y flwyddyn i ddod.

Yna manylodd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar y rhesymau dros y gorwariant a'r camau i adfer y sefyllfa. Nododd na fu'n flwyddyn hawdd o ran sicrhau cadw oddi fewn i gyllidebau, yn enwedig yn y maes gwastraff, o ystyried bod gan yr adran nifer fawr o dargedau i'w cyrraedd o ran y Strategaeth Arbedion yn ogystal. Eglurodd fod yna amrywiaethau bob blwyddyn, yn enwedig o dan y penawdau gwastraff, oherwydd ei fod yn faes sy'n mynd trwy drawsnewid sylweddol. Eleni, 'roedd y symudiadau o ran y proffil hanner blwyddyn o fesur ychydig yn uwch na'r arfer gyda rhai penawdau gwastraff yn tanwario ac eraill yn gorwario. O ran y sefyllfa i'r dyfodol, 'roedd yr adran yn cymryd camau mawr a byddai'n rhaid i'r aelodau gymryd camau mawr yn ogystal. Y pennawd mwyaf anodd o safbwynt cyflawni oedd gwastraff masnachol oherwydd ei bod yn cymryd amser i weithredu'r newidiadau, ond gobeithid y byddai'r gwasanaeth hwn mewn sefyllfa i greu incwm y flwyddyn nesaf.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ac ymatebodd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn briodol i'r cwestiynau hynny.

Nododd y Pennaeth Cyllid ei fod wedi ei argyhoeddi bod yna newidiadau ar y gorwel ar y ddau brif fater, sef Safleoedd Gwaredu a Chasgliadau Gwastraff Masnachol, a bod yna sylw rheolaethol yn cael ei roi i wella sefyllfa'r rheini erbyn y tymor canol.

**PENDERFYNWYD derbyn y camau i oresgyn y gorwariant.**

**5. ADOLYGIAD CYLLIDEB 2012/13 – GWEITHREDIAD AR ARGYMHELLION YNGLŶN Â YMGYNGHORIAETH**

Cyflwynwyd:-

(a) adroddiad y Pennaeth Cyllid yn:-

- gosod allan yr hyn a adroddwyd i'r pwyllgor hwn ym mis Tachwedd, 2012 ar yr adolygiad ail chwarter o Gyllideb Refeniw y Cyngor am 2012/13;
- atgoffa'r aelodau, er mai cyfrifoldeb y Cabinet a'r Aelod Cabinet perthnasol yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor, y dylai'r Pwyllgor Archwilio geisio sicrhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigonol a chefnogi'r swyddog cyllid statudol trwy graffu a herio penderfyniadau'r Cabinet a'u harweinyddiaeth mewn perthynas â threfniadau rheolaethol yr adrannau.

(b) adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Ionawr, 2013.

Nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod y Cabinet wedi penderfynu:-

(a) Comisiynu gwaith gan y Pennaeth Cyllid i ymchwilio i drefniadau rheolaeth ariannol sydd gan Ymgynghoriaeth Gwynedd, tra ar yr un pryd yn sefydlu ar y cyd gyda Phennaeth yr Ymgynghoriaeth y dystiolaeth o beth yn union sydd wedi digwydd yn 2012/13 a beth yw'r sefyllfa debygol felly ar gyfer 2013/14.
(b) Gofyn i'r Pennaeth Cyllid sicrhau fod ei adroddiad ar gael cyn diwedd y flwyddyn ariannol yma neu yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd er mwyn sicrhau bod Ymgynghoriaeth Gwynedd yn dechrau 2013/14 ar y droed iawn.
(c) Yn sgil canlyniadau'r ymchwil yma, bod yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn arwain ail ddarn y gwaith o sefydlu model newydd fydd yn gynaliadwy ac yn ymatebol i'r sefyllfa economaidd.

Yna manylodd Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd ar y rhesymau dros y gorwariant a'r camau i adfer y sefyllfa. Amlinellodd y drefn arferol o gomisiynu gwaith gan egluro fod yr Ymgynghoriaeth wedi'u dal allan eleni gan i'r gwaith brinhau yn fwy sydyn nag a ragwelwyd ar ôl mis Ebrill diwethaf. Fe wnaeth YGC guro gwaith llifogydd gan Sir Fflint, ac er bod hyn wedi dod â rhywfaint o lwyddiant i'r Ymgynghoriaeth, ni ddaeth â'r incwm llawn i mewn gan y bu'n rhaid cyflawni'r gwaith ar raddfa fwy cystadleuol. Fel arfer, 'roedd y gwaith yn dechrau dod i mewn erbyn tua mis Awst, ond eleni, nid oedd hynny wedi digwydd tan yn ddiweddar iawn a bellach 'roedd gan yr Ymgynghoriaeth fwy o waith nag o bobl i gyflawni'r gwaith hwnnw. Os oedd hyn am fod yn batrwm i'r dyfodol, 'roedd angen proffilio incwm yn wahanol ac ail-strwythuro'r Ymgynghoriaeth a byddai'r gwaith a gomisiynwyd gan y Pennaeth Cyllid yn cyfarch hyn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ac ymatebodd Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd a'r Uwch Reolwr Cyllid yn briodol i'r cwestiynau hynny.

Mynegwyd pryder bod rhaglenni cleientiaid yn llithro cynlluniau ac nad oedd yr arian yn dod i mewn ar gyfer cynlluniau sydd angen eu gwireddu yng Ngwynedd.

Pwysleisiodd yr Arweinydd Cabinet Adnoddau fod rhaid i'r adroddiad a gomisiynwyd gan y Cabinet edrych yn fanwl ar drefn busnes yr Ymgynghoriaeth oherwydd, er bod y Pennaeth wedi adrodd bod yna lawer o waith wedi dod i mewn tuag at ddiwedd y flwyddyn, beth fyddai'r rhagolygon ar gyfer y 2-3 blynedd nesaf? Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru dorri i lawr ar ei chyllidebau o ganlyniad i dderbyn llai o arian gan y Llywodraeth Ganolog. Gan hynny, nid oedd y sefyllfa'n

llewyrchus ac 'roedd angen bod yn ofalus iawn wrth redeg y busnes yma a pheidio bod yn orhyderus bod yna ddigonedd o waith ar gael.

Nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'r adroddiad cyntaf a gomisiynwyd gan y Cabinet ar gael i'w drafod ar lefel swyddogion ac aelodau cabinet perthnasol erbyn tua diwedd mis Mawrth ac awgrymodd y gellid ymddiried yn y Cadeirydd i benderfynu a ddylai'r adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet bryd hynny gael ei alw i mewn gan y pwyllgor hwn am drafodaeth yn dilyn hynny.

**PENDERFYNWYD derbyn y camau i oresgyn y gorwariant.**

## 6. ADOLYGIAD CYLLIDEB 2012/13 – GWEITHREDIAD AR ARGYMHELLION YNGLŶN Â PHARCIO

Cyflwynwyd:-

(a) adroddiad y Pennaeth Cyllid yn:-

- gosod allan yr hyn a adroddwyd i'r pwyllgor hwn ym mis Tachwedd, 2012 ar yr adolygiad ail chwarter o Gyllideb Refeniw y Cyngor am 2012/13;
- atgoffa'r aelodau, er mai cyfrifoldeb y Cabinet a'r Aelod Cabinet perthnasol yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor, y dylai'r Pwyllgor Archwilio geisio sicrhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigonol a chefnogi'r swyddog cyllid statudol trwy graffu a herio penderfyniadau'r Cabinet a'u harweinyddiaeth mewn perthynas â threfniadau rheolaethol yr adrannau.

(b) adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio yn hysbysu'r pwyllgor o'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r adolygiad parcio.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y Pennaeth Rheoleiddio a'r Aelod Cabinet Amgylchedd wedi trefnu diwrnod strategol ar 14 Mawrth i roi sylw manwl i'r strategaeth barcio.

Nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod y Cabinet wedi trafod y mater hwn ar sawl achlysur ac wedi dod i'r casgliad bod angen cael trafodaeth ehangach ynglŷn â beth yw rôl meysydd parcio'r Cyngor.

Yna manylodd y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd ar y rhesymau dros y diffyg a'r camau i adfer y sefyllfa. Nododd fod y targed incwm gwreiddiol eisoes wedi ei leihau, ond rhagwelwyd diffyg tua £300k am y flwyddyn 2012/13, wrth ddi-ystyrru ôl daliad rhent am flynyddoedd blaenorol. Llwyddwyd i sicrhau ôl-ddyled rhent £170,000 o faes parcio Stryd y Deon, Bangor ac 'roedd hynny wedi golygu bod y diffyg am 2012/13 tua £100k. 'Roedd yr adran wedi llunio nifer o opsiynau o ran rheoli parcio a bwriedid eu cyflwyno yn y lle cyntaf i'r diwrnod strategol ym mis Mawrth. Yn ogystal â hynny, 'roedd y targed incwm o £1m wrthi'n cael ei adolygu ar gyfer 2013/14, gan fod yr adran wedi methu cyrraedd y targed hwn yn 2012/13 a'r blynyddoedd diweddar cyn hynny.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ac ymatebodd y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn briodol i'r cwestiynau hynny.

Nodwyd yr hyderid y byddai yna gyfle i'r aelodau roi mewnbwn i'r drafodaeth ar 14 Mawrth. Yn ychwanegol, galwyd am drefnu cyfarfod buan o'r holl gynghorwyr fel

bod modd iddynt baratoi cwestiynau ymlaen llaw i'r swyddogion. Mewn ymateb, awgrymodd yr Aelod Cabinet Adnoddau y byddai'n fuddiol i ymgynghori'n eang ar y strategaeth barcio, cyn ei chyflwyno am benderfyniad. Awgrymodd hefyd fod yr aelodau yn anfon rhestr o'u syniadau, gofidiau, ayb, ynglŷn â pharcio i'r Aelod Cabinet Amgylchedd, neu aelod cabinet o'u hardal, cyn i'r Cabinet drafod y mater.

Awgrymwyd bod y strategaeth barcio yn fater addas i'w gyflwyno i un o'r pwyllgorau craffu ar ôl i'r Cabinet ei ystyried gan fod yna nifer o agweddau y dylid edrych arnynt.

Gan gyfeirio at y drefn bresennol o graffu eitemau ar ôl i'r Cabinet wneud penderfyniadau yn eu cylch, awgrymwyd y byddai'n well petai'r craffu'n digwydd yn gyntaf. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Cyllid mai dyma oedd y drefn newydd genedlaethol a osodwyd ar y Cyngor. Fodd bynnag, honnwyd bod rhai siroedd yn gweithredu'n wahanol i hynny a chytunodd y Cadeirydd i godi'r mater yn y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu y diwrnod canlynol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r esboniad.**

## 7. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2012.

Yng nghyswllt archwiliadau sy'n derbyn barn C, awgrymwyd y dylid galw'r swyddogion perthnasol gerbron y Pwyllgor Archwilio ar amser priodol i adrodd ar gynnydd yn eu hymdrechion i ddatrys gwendidau mewn rheolaeth mewnol.

Gan gyfeirio at yr archwiliad o'r trefniadau ymdrin â gohebiaeth, nodwyd nad oedd yr adrannau bob amser yn nodi cyfeirnod y llythyrwr wrth ymateb i ohebiaeth. Cytunodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg i ddilyn hyn i fyny.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

## 8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2012/13.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2012/13.**

## 9. STRATEGAETH GWRTH-DWYLL, GWRTH-LWGRWOBRWYO A GWRTH-LYGREDIGAETH CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo a mabwysiadu Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer 2013-2016 a'r Cynllun Ymateb.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygredigaeth a'r Cynllun Ymateb i Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth, a'u mabwysiadu'n ffurfiol.**

**(b) Datgan cefnogaeth i'r dogfennau a chefnogi aelodau a swyddogion y Cyngor wrth eu gweithredu.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.50pm.

**PWYLLGOR ARCHWILIO 14-02-13**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, Eddie Dogan, Aled Ll. Evans, Aeron Jones, Charles W. Jones, Sion W. Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell, Gethin G. Williams, R.J. Wright a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Janet Roberts (Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Tom Ellis, Selwyn Griffiths, John B. Hughes.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. CYLLIDEB 2013/14 A STRATEGAETH ARIANNOL 2013/14 – 2016/17

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau.

Nododd y disgwylir i'r Cabinet ar 19 Chwefror 2013 gynnig cyllideb i'r Cyngor sy'n cynnwys argymhelliad ynglyn â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2013/14. Gan dderbyn ei fod yn ymarfer da i osod y gyllideb yng nghyd-destun y sefyllfa ar gyfer y tymor hirach, bwriedir hefyd gynnig strategaeth ariannol ar gyfer oes y Cyngor hwn (2013/14 – 2016/17). Mae hyn yn parhau'n arferiad sy'n bodoli bellach ers rhai blynyddoedd ac yn cael ei ganmol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Rhoddodd y Cabinet eisoes ystyriaeth i'r hyn y bwriedir ei argymell a thynnodd yr Aelod Cabinet sylw aelodau'r pwyllgor at y syniadau cychwynnol hynny. Cyn i'r Cabinet ddod i gasgliadau terfynol, rhoddir cyfle i'r pwyllgor hwn ystyried os yw'r Strategaeth Ariannol drafft yn cyfarch y risgiau bydd y Cyngor yn wynebu rhwng 2013/14 a 2016/17 er mwyn i'r Cabinet fedru ystyried unrhyw sylwadau sydd ganddo wrth lunio'r cynigion terfynol.

Adroddodd Dilwyn Williams y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y mwyafrif o'r aelodau wedi manteisio ar y cyfle i fynychu sesiynau a gynhaliwyd yn ddiweddar i egluro'r strategaeth. Nododd mai dyletswydd y Pwyllgor Archwilio yw ystyried y strategaeth yng ngogwydd priodoldeb ariannol ac edrych yn benodol ar y risgiau. Tynnodd sylw'r aelodau at y prif risgiau. Nododd mai un

o’r risgiau i’r Cyngor yw chwyddiant cyflogau. ‘Roedd yna risg ar un adeg gyda’r cynllun Treth Cyngor newydd gan bod disgwyliad tan yn ddiweddar y byddai 8,000 o drigolion Gwynedd nad oedd yn talu unrhyw Dreth Cyngor (gan eu bod yn derbyn Budd-dâl Treth Cyngor llawn) yn gorfod talu 10% o fis Ebrill ymlaen. Lleihawyd y gyfradd casglu, ond yn dilyn hyn newidiodd Llywodraeth Cymru eu meddwl sy’n caniatau i’r rhai sy’n cael 100% o Fudd-dâl Treth Cyngor, barhau i gael rhyddhad llawn. ‘Roedd hyn yn newyddion da i drigolion Gwynedd ac yn golygu bod arian yn sbâr oherwydd disgwylir bydd y gyfradd casglu treth yn uwch na’r hyn a gynlluniwyd amdano. Cyfeiriodd at leihau cyllidebau incwm, a sut adlewyrchir hynny yn y gyllideb pan yn briodol. Tynnodd sylw at y bidiau a gyflwynir gan y gwasanaethau ar gyfer cyfarch problemau i ddiogelu parhad y gwasanaethau. Nododd bod £1.2m yn mynd at y bidiau hynny. Cyfeiriodd at y gyllideb wrth gefn o £1.6m sydd eisoes yn bodoli ers paratoi cyllideb 2012/13. ‘Roedd o’r farn bod y Cyngor hwn yn un o’r rhai mwyaf darbodus oherwydd y gogwydd hir-dymor a gymerir. Nododd bod y Cabinet o’r farn y dylid cynyddu’r Dreth Gyngor o 3.5% ar gyfer 2013/14 er lleihau lefel y toriadau ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Tynnodd sylw at yr Asesiad Effaith o Safbwynt Cydraddoldeb, sy’n dadansoddi’r risg bod y strategaeth ariannol yn cael effaith anghymesur ar rai carfanau o gymdeithas.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y risgiau sylweddol a’r gyllideb wrth gefn o £1.6m, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod 1% o gyflogau yn gyfystyr â £1.3m. Nid yn unig yr £1.6m a gyfarchwyd ar gyfer risgiau ond hefyd mae balansau wrth gefn.

Gofynnodd aelod am eglurhad am addysg ganolog. Mewn ymateb, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y gyllideb ysgolion dan reolaeth yr ysgolion unigol ond ni ddatganolir y gyllideb addysg ganolog i ysgolion gan ei fod ar gyfer materion megis cludiant.

Tynnodd aelod sylw bod angen creu arbedion o £32m tros y dair blynedd nesaf a gofynnodd a fyddai’r cynnydd o 3.5% yn y dreth gyngor yn weithredol hefyd am y bedair blynedd nesaf. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai hyn yw’r bwriad. Nododd bod chwyddiant yn unig yng nghyllideb y flwyddyn nesaf yn 1.4% a bod y grant gan Llywodraeth Cymru yn 1%. Mae’r grant sy’n 80% o’r gwariant yn cynyddu llai na chwyddiant. Os oes angen darparu mwy o wasanaethau ar gyfer yr henoed, anableddau dysgu a.y. mae’r gwir gynnydd gwariant yn 2.2%. Yn wyneb hyn, gellir unai torri’n ôl ar y gwasanaethau neu cynyddu’r dreth gyngor, ac ‘roedd y Cabinet o’r farn mai’r balans priodol fyddai cynnydd o 3.5% y flwyddyn ond wedyn bydd angen gwneud toriadau o £25m. Yn dilyn cynnal y sesiynau ar y strategaeth ariannol, yr ymdeimlad cyffredinol oedd mai hwn fyddai’r balans priodol ar gyfer y Cyngor.

‘Roedd aelod o’r farn bod cynnydd o 3.5% yn y dreth gyngor yn rhy uchel ac y dylid ei ostwng i 3%. Mewn ymateb, hysbysodd yr Aelod Cabinet Adnoddau y ceisir gwarchod y gwasanaethau a gynigir i drigolion Gwynedd drwy osod y strategaeth hon. Os na chytunir ar gynnydd o 3.5%, yna bydd angen torri ar mwy ar wahanol wasanaethau o fewn y Cyngor.

Cyfeiriodd aelod at adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn gofyn i’r cynghorau ddefnyddio balansau yn lle codi’r dreth. Mewn ymateb, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad oedd yr adroddiad yn argymell hyn ond yn hytrach ‘roedd yn tynnu sylw at yr amrywiaeth o falansau a chronfeydd penodol sydd gan gynghorau Cymru.

Nododd aelod y cedwir nifer o falansau sylweddol gan y cynghorau cymuned/tref ac yn wyneb hynny ‘roedd yna gyfle iddynt beidio â chodi cymaint ar y dreth. Gofynnodd a fyddai’r Cyngor hwn yn rhoddi mwy o arweiniad i’r cynghorau cymuned/tref ynglyn â defnyddio’r balansau. Mewn ymateb, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad oes hawl gan y Cyngor hwn i ymyrryd â materion y cynghorau cymuned/tref gan eu bod yn ddau gorff statudol hollol ar wahân. Gan bod canran praesept y cynghorau cymuned/tref mor fychan o’i gymharu â phraesept y Cyngor hwn, treth y Cyngor hwn sy’n dylanwadu fwyaf ar y dreth.

Gofynnodd aelod os y derbynnir y cynnydd o 3.5% yn y dreth gyngor. a fyddai hynny’n ddigon i ganiatau i’r Cyngor gadw’r gwasanaethau presennol neu a fyddai angen gwneud toriadau’n ogystal. Mewn ymateb, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod anghenion cynnydd gwariant 2013/14 yn £17m ac y derbynnir grant o £13m. Os codir y dreth gyngor £1.7m, sef 3.5%, bydd yn ofynnol i’r Cyngor ganfod £1.9m o arbedion. Ceisir peidio effeithio ar drigolion drwy gynnig gwasanaethau mewn ffordd gwahanol.

Cyfeiriodd aelod at y ffaith nad oes cyfeiriad yn y strategaeth at ddulliau o godi arian. Mewn ymateb, tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at gyfeiriad yn y strategaeth ariannol sy’n nodi cynnydd incwm £0.1m yn 2013/14. Nododd i’r Pennaeth Cyllid baratoi adroddiad ar gyfer holl gynghorau Cymru er gweld os oedd cyfleoedd i gynghorau gynyddu eu incwm.

Nododd y Pennaeth Cyllid i’r Cyngor hwn brisio yn eithaf cyfredol tros y blynyddoedd ac mae’r gwasanaethau rheng flaen mewn ymgynghoriad â’u cyfrifwyr wedi codi’r ffioedd lle’n briodol. Cyfeiriodd at gonfensiwn yng Ngwynedd sy’n ychwanegu chwyddiant ar y targed incwm ac yna mae’n gyfrifoldeb ar y gwasanaethau i godi’r ffioedd neu fe gollir allan yn y gyllideb.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed balansau ysgolion, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad oedd y Cyngor tan yn ddiweddar yn gallu ymyrryd â balansau ysgolion. Mae cyrff llywodraethol ysgolion yn rhai ar wahân i’r Cyngor a mater iddynt hwy yw penderfynu sut yr ymdrinir â’u cyllideb. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu deddfwriaeth sy’n caniatau i’r cynghorau ymyrryd ac hyd yn oed cymryd balansau oddi ar ysgolion os y darganfyddir eu bod tros rhicyn penodol. Cyfeiriodd at y ffaith bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion a sefydlwyd i drafod materion cyllidol ysgolion, yn edrych ar sefyllfaoedd ysgolion sydd tros y rhicyn. Yn ogystal cafodd y Pennaeth Addysg gyfarwyddyd gan y Fforwm i edrych os yw’n bosibl edrych ar newid y fformiwla gwarchodaeth er sicrhau bod yr ysgolion hynny sy’n derbyn gwarchodaeth ddim yn cadw balansau uchel.

Nododd aelod i Lywodraeth San Steffan neilltuo arian i gynghorau yn Lloegr nad ydynt yn codi treth gyngor, a gofynnodd beth oedd y sefyllfa yng Nghymru. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol i Lywodraeth San Steffan hysbysu’r cynghorau yn Lloegr y’i digolledir ychydig os iddynt benderfynu peidio codi treth gyngor ond gallai hynny achosi problemau i’r dyfodol, pan ddeuai’r cymorth i ben. Ni weithredir hyn gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn bod y Strategaeth Ariannol yn cyfarch y risgiau perthnasol ac yn rhoddi sylw priodol i’r risgiau a wynebir tros y cyfnod pedair blynedd i ddod.**

## 3. BIDIAU REFENIW A CHYFALAF

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar y bidiau refeniw a chyfalaf.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi bod y Cyngor, fel rhan o'r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2013/14, yn gwahodd bidiau refeniw a chyfalaf. Yn unol â'r fframwaith cynllunio busnes, fe adnabuwyd y bidiau gan y gwasanaethau wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a chynlluniau gwasanaeth blynyddol. Eto eleni, yn wyneb y sefyllfa ariannol ddychrynllyd o heriol, gwahoddwyd bidiau dan y categori anorfod yn unig, sef gwariant anorfod i gadw gwasanaeth ar ei lefel bresennol neu ymateb i ofynion deddfwriaethol newydd sylweddol na allai'r adran eu cyfarfod. Argymhellir cymeradwyo bidiau am ddwy swydd newydd yn unig.

Nododd y derbyniwyd bidiau nad oedd yn cyd-fynd â'r diffiniad anorfod gan eu bod yn ddatblygol eu natur. Ystyrir y bidiau datblygol perthnasol yn ddiweddarach o fewn y drefn o ddatblygu Cynllun Strategol newydd y Cyngor a chyflwynir yr argymhellion ariannu hynny i'r Cyngor ym mis Mai 2013.

Mewn perthynas â'r broses blaenoriaethu, derbyniwyd bidiau refeniw cyfwerth â £2,410,373 (parhaol) a £714,200 (unwaith ac am byth) ynghyd â bidiau cyfalaf o £1,003,600. Nododd bod y symiau yr argymhellir eu cyllido fel a ganlyn –
a) Bidiau Refeniw Parhaol - £1,265,980
b) Bidiau Refeniw unwaith ac am byth - £394,250
c) Bidiau Cyfalaf - £435,000

Rhoddodd fanylion am y prif gamau yn y broses ar gyfer blaenoriaethu'r bidiau.

Nododd aelod bod elfen mwy weinyddol yn hytrach na gwasanaethol ar y bidiau a nodir yn yr adroddiad ac 'roedd o'r farn bod angen bod yn fwy anturus ynglyn â hwy. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog mai dwy swydd newydd yn unig a greeir a hynny yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol – un yn y maes plant a'r llall yn y maes plant anabl. Mae'r ddwy swydd yn ymateb i'r cynnydd yn y galw ac y byddai'n risg i'r gwasanaethau hynny os na greeir y swyddi hyn.

Tynnodd aelod sylw y cyflwynwyd bid o £59,814 ar gyfer swydd Swyddog Data yn yr Adran Addysg. 'Roedd o'r farn bod y swm hwn ychydig yn uchel o ystyried lefel rheolaethol o fewn y Cyngor. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog nad yw'r bid ar gyfer y swydd hon wedi ei gymeradwyo.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y bid i gyflogi dau swyddog i roddi cyngor ac arweiniad i drethdalwyr fyddai'n gorfod talu treth cyngor am y tro cyntaf er mwyn lleihau'r angen i erlyn am symiau bychan iawn, hysbysodd y Pennaeth Cyllid y cyflwynwyd y bid rhai misoedd yn ôl cyn penderfyniad y Gweinidog yn Ionawr 2013 i ariannu'r diffyg yng nghyllideb Cynllun Cymorth Treth Cyngor. Yn dilyn penderfyniad hwyr y Gweinidog, ni fydd yr Adran Gyllid yn derbyn y gyllideb ychwanegol yn 2013/14, ond cedwir y bid parhaol yn y rhestr, gan ddisgwyl bydd ei angen erbyn 2014/15 ac wedi hynny.

Mewn perthynas â'r bid i uwchraddio meddalwedd y Cyngor, drwy gynllun lesio meddalwedd Microsoft, gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl i wneud technoleg gwybodaeth gwahanol. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod hwn yn dod i rym yn Ebrill 2013 oherwydd i'r hen gytundeb ddod i ben ac ymgymeryd â gwaith ar draws Gogledd Cymru er gweld beth fyddai'r pecyn gorau i'r cynghorau ac yn gost-effeithiol.

Nododd Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol yr ymgymerwyd â'r gwaith asesu er mwyn darganfod os yw'n werth am arian a chanfyddwyd mai hwn yw'r model gorau.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cabinet ar 19 Chwefror 2013:-**
**a) Gymeradwyo'r bidiau refeniw a ystyrir yn anorfod gan eu bod yn cyfarch y risg o ddiffyg parhad gwasanaeth gan dderbyn hefyd na ddylid cyllido'r bidiau na argymhellir eu cyllido.**
**b) Gymeradwyo'r bidiau cyfalaf a'r argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella.**

## 4. COFRESTR O ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar gofrestr o adroddiadau archwilio allanol.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi mai gofynion Mesur Llywodraeth Cymru yw bod pob adroddiad archwilio allanol i ddod i sylw'r pwyllgor hwn, gyda'r pwyllgor yn cymeradwyo buddion gweithredu'r argymhellion a nodir gan yr archwilwyr allanol. Bydd hyn yn galluogi'r pwyllgor i gadw trosolwg ar weithredu argymhellion yr adroddiadau a rhoddi crynodeb byr i'r Cabinet. Rhoddodd fanylion am enghreifftiau o adroddiadau archwilio allanol.

Nododd y gallai adroddiadau fod yn llwyr berthnasol i Wynedd neu'n adroddiadau cenedlaethol sydd â chyfeiriad ynddynt at Gyngor Gwynedd. Yn ychwanegol at hyn, gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i'r Adran Strategol a Gwella gadw cofrestr corfforaethol o adroddiadau archwilio allanol, a'i chyflwyno i'r pwyllgor bob chwe mis. Cyfeiriodd at y Gofrestr o Adroddiadau Archwilwyr Allanol ar wasanaethau'r Cyngor ers 2009, sy'n gyfuniad o adroddiadau blynyddol, achlysurol a chenedlaethol lle y cyfeirir at Gyngor Gwynedd. Nid oes adroddiadau ychwanegol i'w hystyried ar hyn o bryd, ond tynnodd sylw at yr archwiliadau "byw" a amlygwyd mewn melyn yn yr atodiad i'r adroddiad, gan y byddant yn rhai i'w hystyried maes o law.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y Gofrestr o Adroddiadau Archwilio Allanol a bydd angen ystyried y rhai a amlygwyd mewn melyn yn yr atodiad i'r adroddiad maes o law.**

## 5 . RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2013/14

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at y cyfarfod briffio anffurfiol a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2013 gydag Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor i drafod Rheolaeth Trysorlys. Atgoffwyd yr aelodau o'r drafodaeth gyda'r ymgynghorwyr ynglyn â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys ynghyd a'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau am weithgaredd Rheolaeth Trysorlys.

Nodwyd bod yr ymgynghorwyr wedi amlygu gwahanol risgiau cyfredol i'r trysorlys a thrafodwyd mewn manylder risgiau credyd, risgiau gyda gwrthbartion, risgiau cyfraddau llog a risg cyfradd chwyddiant. Yn ogystal, atgoffwyd aelodau o drafodaethau parthed portffolio dyled y Cyngor, y sefyllfa benthyca net a'r dangosyddion darbodus.

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ei adroddiad ffurfiol yn gofyn i'r pwyllgor graffu'r polisiau ynghylch benthyca a buddsoddi'r Cyngor, ynghyd â chyfyngiadau perthnasol ar hawliau dirprwyedig.Gofynnwyd hefyd i'r pwyllgor gyfeirio'r Datganiad Polisi a'r Strategaethau ar gyfer 2013/14 a''r newidiadau i Atodlenni Rheolaeth Trysorlys i'r Cyngor llawn i'w mabwysiadu.

Nododd y Rheolwr Buddsoddi bod yr ymgynghorwyr wedi ailystyried y math o fuddsoddiadau penodedig ac amhenodedig y gellir buddsoddi ynddynt. Ychwanegwyd yn benodol sefydliadau nad ydynt yn cyfarfod â'r meini prawf buddsoddi penodedig a ddilynwyd ers blynyddoedd. Golygai hyn y byddai unrhyw gorff y buddsoddir ynddo yn cael asesiad credyd manwl ac yr asesir hyn gan yr ymgynghorwyr er rhoddi cyngor os ydyw o werth buddsoddi ynddynt.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed benthyciad LOBO, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod y benthycwr â'r hawl i alw i mewn bob pum mlynedd, ond bod hynny'n annhebygol ar hyn o bryd oherwydd lefel cyfraddau llog a'r rhagolygon perthnasol.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2013 fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol am 2013/14 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B) a'r Atodlenni Rheolaeth Trysorlys (Atodiad C).**

## 6. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2012/13

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2012/13.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 1 Chwefror 2013 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| Statws yr Archwiliad | Nifer |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 9 |
| Crewyd papurau gwaith | 3 |
| Gwaith maes ar y gweill | 18 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 1 |
| Disgwyl Adolygiad | 2 |
| Adroddiad Drafft | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 63 |
| Wedi ei gau | 1 |
| **Cyfanswm** | **99** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 11 |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2012/13 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2013. Nododd bod hwn yn parhau'n darged heriol, ond bod 88% o'r archwiliadau (87 allan o 99) unai wedi eu cwblhau, neu o leiaf â'r gwaith maes wedi dechrau.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, nododd y swyddog nad oes addasiadau pellach yn ychwanegol i'r rhai adroddwyd eisoes i'r pwyllgor mewn cyfarfodydd blaenorol.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed yr archwiliad "Cleiant Tenau", hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai system gyfrifiadurol yw hwn sy'n weithredol ers oddeutu dwy flynedd. Cyflwynir crynodeb gweithredol yr archwiliad i'r pwyllgor nesaf.

Gofynnodd aelod oes yw archwiliadau CRB staff wedi eu cwblhau. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yr ymgymerwyd â llawer o waith yn yr Adran Addysg. Nododd mai darganfyddiadau cychwynnol yr archwiliad yw y cedwir ormod o fasau data mewn gwahanol lefydd a bod angen ymdrin â'r data yn well.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2012/13.**

## 7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2013/14

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi manylion am gynllun drafft o waith yr Adain Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2013/14 fel y gallai'r aelodau leisio barn arno a'i gymeradwyo, yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach gyda swyddogion.

Nododd y mabwysiadwyd Strategaeth Archwilio Mewnol 2012-2015 gan y Pwyllgor Archwilio yn Chwefror 2012. Y strategaeth hwn yw sail i waith Archwilio Mewnol am y cyfnod dan sylw, ac mae'n egluro sut y bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cynnig sicrwydd am y rheolaethau mewnol sy'n eu lle o fewn Cyngor Gwynedd. Mae'r strategaeth hefyd yn egluro sut y bydd rhaglen waith Archwilio Mewnol yn cael ei gynllunio a'i baratoi yn y cyfnod dan sylw, ac yn egluro sut y bydd yn cynorthwyo'r Cyngor i wella er lles y dinesydd. Yn ogystal mae'n amlinellu'r adnoddau y disgwylir y bydd ar gael iddo ac yn datgan y rhagolygon o safbwynt cydweithio ag eraill.

Ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys ystyried cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, rheolaeth a chyfarfodydd, rhagwelir y bydd oddeutu 1,680 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau'r cynllun archwilio. Mae hyn ar ôl ystyried darpariaethau ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb, gwaith ymatebol a gwaith dilyniant.

Nododd bod y strategaeth yn rhoddi disgrifiad manwl o'r camau sydd i'w dilyn er mwyn paratoi'r cynllun archwilio gweithredol ar gyfer 2013/14. Fel cam cyntaf, rhoddir ystyriaeth i faterion sy'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun yn flynyddol ac yna rhoddir ystyriaeth i archwiliadau eraill sydd angen cynllunio amdanynt. Defnyddir trefn systematig i gynnal asesiad anghenion archwilio ac adnabod meysydd i'w harchwilio.

Bwriedir cynnal trafodaethau gyda'r penaethiaid adran a rheolwyr perthnasol cyn dechrau ar yr archwiliadau hyn ac fe ymgorfforir eu hawgrymiadau yn y cynllun terfynol a gyflwynir i'r pwyllgor nesaf.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014, yn ddarostyngedig i fân addasiadau i'w gwneud gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid, yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.10pm

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 EBRILL 2013** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2013** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ionawr 2013 hyd at 31 Mawrth 2013.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2013:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 31 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 3 |
| Archwiliadau Dilyniant | 6 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2013, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Asiantaeth Cefnffyrdd - anfonebau rhwng cynghorau | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | | B | Atodiad 1 |
| Ansawdd Gohebiaeth | Corfforaethol | | A | Atodiad 2 |
| Cynllunio'r Gweithlu | Corfforaethol | | B | Atodiad 3 |
| Cytundeb Canlyniadau | Corfforaethol | | B | Atodiad 4 |
| Gwiriadau DBS Staff | Corfforaethol | | C | Atodiad 5 |
| Telerau Contractau - Gwiriadau DBS | Corfforaethol | | C | Atodiad 6 |
| Defnydd Honoraria | Corfforaethol | | B | Atodiad 7 |
| Cysoni Banc y System Incwm | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 8 |
| System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 9 |
| System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 10 |
| Budd-daliadau Tai Dewisol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 11 |
| System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 12 |
| System paye.net | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 13 |
| System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 14 |
| Cymunedau'n Gyntaf - Strategaeth Ymadael | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | B | Atodiad 15 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cymunedau'n Gyntaf - Trefniadau cau i lawr | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | B | Atodiad 16 |
| Cynllun Genesis Cymru 2 | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | B | Atodiad 17 |
| Prosiect Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc | Economi a Chymuned | Adfywio Cymunedol | A | Atodiad 18 |
| Cleiant Tenau | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 19 |
| Gwerthusiad o'r Peilot Cyfryngau Cymdeithasol | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | B | Atodiad 20 |
| Rheoli Newid i Systemau TG | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | C | Atodiad 21 |
| Prosesu Data Cyflenwyr Ynni | Gofal Cwsmer | Tir ac Eiddo’r Cyngor | C | Atodiad 22 |
| Rheoli Contractau - Ysgol Ardal Bro Dysynni | Gofal Cwsmer | Tir ac Eiddo'r Cyngor | A | Atodiad 23 |
| Cyllid Cleientau | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | | B | Atodiad 24 |
| Trefniadau Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Busnes | B | Atodiad 25 |
| Llety i Bobl Ifanc yn gadael gofal | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Plant a Theuluoedd | B | Atodiad 26 |
| Cludiant Cymunedol | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | B | Atodiad 27 |
| Partneriaeth TraCC | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | B | Atodiad 28 |
| Prosiect Pont Briwet | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | A | Atodiad 29 |
| Cyfarpar gan Cyn-aelodau | Strategol a Gwella | Democratiaeth | C | Atodiad 30 |
| Cyflogau a Threuliau Aelodau | Strategol a Gwella | Democratiaeth | B | Atodiad 31 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

| | |
|---|---|
| Barn "A" | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. |
| Barn "B" | Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. |
| Barn "C" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. |
| Barn "CH" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. |

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Llywodraeth Cymru – Trefniadau Prosesu Cyllid Myfyrwyr** *(Addysg)*. Yn dilyn adolygiad beirniadol o drefniadau cyffredinol ar draws Cymru ar gyfer diogelu trefniadau cyllido myfyrwyr (ar sail sampl o 4 cyngor), ysgrifennodd Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru at brif weithredwr pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gofyn i'r awdurdod ysgrifennu ato erbyn diwedd Ionawr 2013 gyda manylion penodol gan yr Adran Addysg am wydnwch eu trefniadau. Ymhellach, roedd cais i Bennaeth Archwilio Mewnol yr awdurdod gadarnhau cywirdeb yr wybodaeth a gyflwynwyd. Gellir cadarnhau fod yr Adran Addysg wedi darparu'r wybodaeth angenrheidiol, ac fod Archwilio Mewnol wedi gwirio cywirdeb yr ymateb, cyn ei basio ymlaen i Lywodraeth Cymru yn unol â'r cais. Mae archwiliad llawn o drefniadau cyllido myfyrwyr wedi ei gynnwys yng nghynllun archwilio 2013/14.

- **Rheoli Contractau - Academi Hwylio** *(Economi a Chymuned)*. Roedd Cynllun Archwiliad Mewnol 2012/13 yn cynnwys adolygiad o drefniadau rheoli contract datblygiad yr Academi Hwylio ym Mhwllheli. Oherwydd amseriad yr archwiliad yma mewn perthynas â datblygiad y prosiect, roedd cwmpas yr archwiliad wedi ei gyfyngu i sicrhau fod cofrestrau risg yn eu lle ar gyfer y cynllun arwyddocaol yma, y broses o hysbysebu cytundebau gwaith ar gyfer y gwahanol agweddau o'r cynllun, a gwirio fod methodoleg dewis contractwyr wedi ei sefydlu cyn hysbysebu. Dangosodd profion archwilio fod y rheolaethau mewnol oedd yn eu lle i liniaru'r risgiau hyn yn effeithiol, gyda mesurau disgwyliedig yn eu lle. Nodwyd fod tri cofrestr risg wedi eu sefydlu, sef Cofrestr risg y cynllun yn ei gyfanrwydd, Cofrestr risg adeilad yr Academi a Cofrestr risg y prosiect morwrol / harbwr. Bydd y broses o ddethol contractwyr ar gyfer y gwahanol agweddau o'r gwaith, y drefn o reoli'r amrywiol gytundebau a gwirio esblygiad parhaus y cofrestrau risg yn destun archwiliad mewnol pellach yn y flwyddyn ariannol 2013/14.

- **Rheoli Risg Corfforaethol** *(Corfforaethol)*. Cynhaliwyd ymarferiad i dderbyn cofrestrau risg adrannol trwy gysylltu gyda phob pennaeth. Canlyniad y gwaith yma oedd fod bodolaeth ac ansawdd y cofrestrau yn amrywio'n sylweddol ar draws y Cyngor. Cynhelir gwaith pellach yn ystod Ebrill a Mai 2013, ar y cyd â'r Adran Strategol a Gwella, er mwyn sefydlu cynllun gweithredu ar gyfer gwella'r sefyllfa yn 2013/14. Bwriedir adrodd ymhellach i'r Pwyllgor Archwilio yng Ngorffennaf 2013, pan fydd y cynllun gweithredu yn ei le.

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Gweinyddu Costau Teithio | Adnoddau Dynol | Cefnogol | **Anfoddhaol** |
| Uned Trwyddedu | Rheoleiddio | Gwarchod y Cyhoedd | **Rhagorol** |
| Recriwtio – Profion Hunaniaeth | Adnoddau Dynol | Cefnogol | **Derbyniol** |
| Comisynu ar y Cyd gyda BILIPBC | Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | | **Rhagorol** |
| Diogelwch Gwybodaeth | Corfforaethol | | **Derbyniol** |
| Lleihau Baich Gwaith Athrawon | Addysg | Ysgolion | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2013**

Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd
Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth
Trefniadau Ymdrin â Gohebiaeth
Gweinyddu Anfonebau cyn eu pasio i'r Uned Taliadau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2013**

Cyfarpar gan Cyn-aelodau
Telerau Contractau - Gwiriadau DBS
Gwiriadau DBS Staff
Trefniadau TG i aelodau
Cofnodi a Rheoli Gwyliau

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2013**

Prosesu Data Cyflenwyr Ynni

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2014**
Rheoli Newid Systemau TG

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Ebrill 2013.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Rheoli cyllidebau cynnal adeiladau Ysgolion Uwchradd - gwerth am arian *(Addysg)*
- Ysgolion Cynradd – Trefn diswyddo oherwydd gormodedd *(Addysg)*
- Gwireddu Prosiectau Arbed *(Strategol a Gwella)*
- Swyddogaethau yn y Broses Monitro Gwariant Cyfalaf *(Strategol a Gwella)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Llwyddo'n Lleol *(Economi a Chymuned)*
- Y Drefn Gwynion Corfforaethol *(Corfforaethol)*
- Polisi Buddiannau Swyddogion *(Corfforaethol)*
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol *(Corfforaethol)*
- Ad-daliadau Treth Di-Annedd *(Cyllid)*
- System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Hyfforddi Aelodau *(Strategol a Gwella)*
- Y Gwasanaeth Cynllunio *(Rheoleiddio)*
- Tocynau Teithio Rhad - Taliadau i gwmnïau bysiau *(Rheoleiddio)*
- Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden *(Gwasanaethau Cymdeithsol, Tai a Hamdden)*
- Taliadau Uniongyrchol *(Gwasanaethau Cymdeithsol, Tai a Hamdden)*
- Costau Teithio Gweithwyr Cefnogol *(Gwasanaethau Cymdeithsol, Tai a Hamdden)*
- Cynlluniau Galluogi *(Gwasanaethau Cymdeithsol, Tai a Hamdden)*
- Gweithiau Adenilladwy *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Pobl Hŷn / Anabl - Addasiadau i Gartrefi *(Gwasanaethau Cymdeithsol, Tai a Hamdden)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ionawr 2013 i 31 Mawrth 2013, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

## ASIANTAETH CEFNFFYRDD - ANFONEBAU RHWNG CYNGHORAU
### Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod rheolaeth briodol mewn lle ar gyfer derbyn a thalu anfonebau oddi wrth Awdurdodau sy'n rhan o'r bartneriaeth.

Cwmpas yr Archwiliad
Cwmpas yr archwiliad yw gwirio trefniadau yr Asiantaeth Cefnffyrdd ar gyfer paratoi a prosesu taliadau am waith i'r Awdurdodau sy'n rhan o'r barntneriaeth.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 11 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 7 o'r rheolaethau hyn. Y prif wendid a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd 3 awdurdod yn danfon eu hanfonebau ymlaen i'r Uned Asiantaeth Cefnffyrdd yn fisol yn unol ag Atodlen Darparwr Gwasanaeth y bartneriaeth a bod cyfnodau hir cyn bod yr Uned Asiantaeth Cefnffyrdd yn derbyn yr anfonebau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau yr Asiantaeth Cefnffyrdd ar gyfer brosesu anfonebau oddi wrth gynghorau eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth, gan fod rheolaethau mewn lle ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Awdurdodau sydd yn rhan o'r bartneriaeth Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru sicrhau eu bod yn cyflwyno anfonebau am ad-daliadau yn fisol i'r Asiantaeth Cefnffyrdd er mwyn iddynt gydymffurfio gyda gofynion Atodlen Darparwr Gwasanaeth yr Asiantaeth.**

- **Dylai Rheolwr Perfformiad a Chaffael yr Asiantaeth Cefnffyrdd gywiro'r camgodio er mwyn sicrhau fod manylion cyfriflyfr y Cyngor yn cytuno gyda systemau yr Uned Asiantaeth Cefnffyrdd.**

- **Dylid sicrhau fod y blychau ar y slip codio yn cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau cywirdeb yr anfoneb.**

- **Dylid ymdrechu i geisio prosesu'r anfonebau o fewn 10 diwrnod o'u derbyn er mwyn cydymffurfio gydag Atodlen Darparwr Gwasanaeth y bartneriaeth.**

# ANSAWDD GOHEBIAETH
## Corfforaethol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr adolygiad oedd sicrhau bod gohebiaeth allanol yn derbyn ymateb o ansawdd uchel gan swyddogion y Cyngor sydd yn cael ei ddatgan ym 'Mholisi Ymateb E-byst oddi wrth Gwsmeriaid Allanol', lle mynegir y dylid "sicrhau bod safon uchel o Ofal Cwsmer yn cael ei roi yn yr ymateb i'r ymholydd", a sicrhau bod cwsmeriaid y Cyngor yn derbyn cymorth gydag unrhyw ymholiadau neu gwynion.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygwyd sampl o 25 trac o ystod o adrannau'r Cyngor rhwng Ebrill 2012 ac amser yr adolygiad hwn. Gofynnwyd i'r swyddogion a oedd wedi eu nodi'n gyfrifol am yr ymateb yn y system tracio gohebiaeth am gopïau o'r ohebiaeth wreiddiol a dderbyniwyd ynghyd â chopi o'u hymateb. Adolygwyd yr ohebiaeth wreiddiol a'r ymateb er mwyn dod i'r casgliad os oedd yr ymateb o ansawdd dderbyniol ac a oedd yn ateb gofynion y cwsmer. Yn ogystal roeddem yn gwirio bod cwsmeriaid yn derbyn cymorth yn hytrach na chael eu pasio ymlaen o un swyddog i'r llall heb dderbyn unrhyw gydnabyddiaeth.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Mewn rhai o'r llythyrau gwreiddiol roedd yr ymholwyr yn gwneud cais bod yr ymateb yn cael ei anfon yn ddwyieithog neu fod ymateb yn cael ei anfon ar ffurf e-bost. Yn yr achosion yma gwelwyd bod y ceisiadau wedi derbyn ymateb yn y ffurf a ofynnwyd amdano.

Gwelwyd bod pob gohebiaeth yn ein sampl wedi derbyn ymateb unai yn cydnabod y llythyr gwreiddiol neu yn rhoi ymateb llawn iddynt. Gwelwyd hefyd bod gweithwyr y Cyngor yn sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn ymateb o ansawdd. Gwelwyd bod y swyddogion yn cyfeirio at y mater ac yn ceisio rhoi'r wybodaeth gywir iddynt. Mewn sawl enghraifft gwelwyd bod swyddogion hefyd yn cyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau eraill o fewn y Cyngor neu fudiadau eraill er mwyn cynnig rhagor o gyngor iddynt. Mewn un achos nid oedd modd gwerthuso ansawdd yr ymateb gan nad oedd gohebiaeth flaenorol berthynol ar gael. Er hyn mae'n amlwg fod y swyddogion dan sylw yn ymwybodol o'r polisi ateb llythyr/e-bost a'u bod yn gweithredu arno.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ar ansawdd gohebiaeth gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# CYNLLUNIO'R GWEITHLU
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr Archwiliad yma yw sicrhau bod mesurau priodol mewn lle gan y Cyngor i wireddu ei amcan o gynllunio ei weithlu er mwyn darparu gwasanaethau o safon ddisgwyliedig heddiw ac yn y dyfodol.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwblhawyd yr archwiliad drwy gynnal cyfarfodydd gyda'r swyddogion priodol o Adnoddau Dynol, holi sampl o reolwyr, a chasglu tystiolaeth perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod cynllunio'r gweithlu yn offeryn a ddefnyddir gan y Cyngor i fonitro'r gweithlu fel y mae heddiw yn ogystal â chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r broses o gynllunio'r gweithlu yn darparu trosolwg o'r gwasanaeth perthnasol i reolwyr. Yn gynwysedig mewn adroddiad mae gwybodaeth amrywiol, gan gynnwys oedran staff a lefel y trosiant staff mewn blwyddyn benodol.

Gellir cael gwybodaeth megis lefelau salwch yn ogystal â mathau o salwch, a gyflwynir yn syml mewn dogfen a ddylai alluogi rheolwyr i adnabod unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg ac os bydd unrhyw faterion sydd angen sylw.

Mae swyddogion personél yn cynorthwyo rheolwyr yn y flwyddyn gyntaf i wneud yn siŵr fod rheolwyr yn gyfarwydd â'r hyn sydd ei angen ar gyfer y broses. Ar ôl y flwyddyn gyntaf disgwylir i reolwyr gyflawni camau priodol cynlluniau gweithlu ei wasanaeth yn annibynnol, wedi derbyn yr adroddiadau perthnasol.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cynllunio'r Gweithlu gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai Swyddogion Personél dilyn i fyny gyda'r rheolwyr a'u hatgoffa i ymgymryd â'r gwaith yn flynyddol.**

# CYTUNDEB CANLYNIADAU
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad oedd archwiliad yw sicrhau bod trefniadau mewnol priodol mewn lle wrth gasglu'r mesuryddion perfformiad ar gyfer y Cytundeb Canlyniadau, yn ogystal â bod trefniadau monitro i allu adnabod unrhyw lithriadau fel y gellid cymryd y camau priodol wrth ymdrîn â hwy.

Cwmpas yr Archwiliad

Edrychwyd ar sampl o amcanion o fewn y Cytundeb Canlyniadau a gwirio'r trefniadau sydd mewn lle i adnabod a chasglu'r dystiolaeth a sicrhau bod trywydd archwilio priodol yn bodoli. Yn ogystal â hyn, gwiriwyd trefniadau'r Adran Strategol a Gwella wrth herio a monitro'r mesuryddion perfformiad.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd o gynnal yr archwiliad bod llawer o reolaethau mewnol yn bodoli eisoes. Y prif wendidau a welwyd oedd bod adroddiad Medi 2012 ar berfformiad y Cyngor yn erbyn y targedau wedi ei dychwelyd yn hwyr i Llywodraeth Cymru. Mae angen sicrhau hefyd fod rhai o'r diffiniadau yn llai amwys.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb wrth weinyddu y Cytundeb Canlyniadau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid asesu'r rhesymau dros yr oedi er mwyn lliniaru'r risg o geisiadau pellach yn cael eu dychwelyd yn hwyr, ac addasu gweithdrefnau os oes angen.**
- **Dylid sicrhau fod y wybodaeth a anfonir i Lywodraeth Cymru'n gywir a bod tystiolaeth eglur i'w gefnogi. Yn ychwanegol, dylid sicrhau fod disgrifiad o berfformiad yn eglur a diamwys.**
- **Pan fo gwaith yn cael ei gomisiynu i gwmni allanol, dylid sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei dderbyn o'r gwaith maent wedi ei gyflawni. Gellir ystyried rhoi cymal mewn cytundeb â'r cwmni.**

# GWIRIADAU DBS STAFF
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod trefniadau clir a phendant ynglŷn â gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gan y Cyngor, a'u bod yn cydymffurfio gyda'r canllawiau / deddf perthnasol.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio sampl o gwasanaethau ar draws y Cyngor a gwirio eu trefniadau a chanllawiau ynglŷn â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Prif Ddarganfyddiadau

Dangosodd yr archwiliad fod gwaith o safon dda wedi cael ei wneud gan yr Adrannau perthnasol i leihau bylchau unigolion oddi fewn y Cyngor sydd heb wiriad DBS. Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud gan yr Adrannau ers mis Hydref 2012. Hefyd, gwelwyd bod gwaith yn ei le i geisio cryfhau systemau monitro DBS, trefniadau penodiadau newydd oddi fewn y Cyngor, a threfniadau ynglŷn â honiadau o gamymddwyn proffesiynol. Fodd bynnag, mae rhai materion allweddol o safbwynt paratoi a dosbarthu arweiniad clir a chyson angen sylw pellach a dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb trefniadau Gwiriadau DBS Staff gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Er mwyn cysondeb a lleihau'r risg o gwiriadau DBS yn cael eu methu dylid cytuno ar un system gorfforaethol er mwyn sicrhau monitro trylwyr a chywir.**
- **Dylid gallu arddangos penderfyniad swyddogol o'r angen i gael DBS ar gyfer penodiadau cyn 2002 a chadw thystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad.**
- **Dylid sicrhau bod gohebiaeth diweddaraf yn cael ei yrru allan i ysgolion ynglyn a gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud.**
- **Dylid sicrhau bod canllawiau clir wedi cael ei dosbarthu i ysgolion yn nodi na ddylai unigolion weithio heb oruchwyliaeth nes bydd dadleniad DBS wedi ei dderbyn yn foddhaol.**
- **Dylid sicrhau bod arweiniad clir yn cael ei rhoi gan yr Adran Addysg i ysgolion y sir er mwyn delio â gwiriadau DBS a thystlythyrau.**
- **Dylid sicrhau bod camau i atal swyddogion o'r gwaith neu sicrhau eu bod yn gweithio dan oruchwyliaeth nes bod gwiriad DBS boddhaol yn cael ei dderbyn.**
- **Lle mae pryder gyda gwiriad DBS dylid ystyried bod cofnod yn cael ei gadw o unrhyw benderfyniadau a wneir gan Penaethiaid Gwasanaeth neu Uwch Reolwr i leihau y risg o swyddogion anaddas yn gwneud penderfyniadau.**

# TELERAU CONTRACTAU - GWIRIADAU DBS
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau cytundebol cadarn ar waith lle mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu neu'n rheoleiddio gwaith gyda phlant a phobl ifanc oddi wrth asiantaeth / cyrff eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio sampl o wasanaethau lle mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu neu'n rheoleiddio gwaith gyda phlant a phobl ifanc oddi wrth asiantaethau / cyrff eraill a gwirio bod trefniadau a chanllawiau ynglŷn â chynnal gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gadarn ac yn weithredol ganddynt.

Prif Ddarganfyddiadau
Dangosodd yr archwiliad fod angen edrych yn fanwl ar drefniadau lle mae'r Cyngor yn comisiynu neu'n rheoleiddio gwaith gyda Phlant a Pobl Ifanc oddi wrth asiantaethau neu gyrff eraill gan fod y trefniadau presennol yn anghyson. Gwelir bod trefniadau cryf mewn rhai adrannau ar gyfer monitro gwiriadau DBS a staff y darparwyr. Mae angen trefniadau cyson ar draws y Cyngor ar gynnal a monitro gwiriadau DBS a hyfforddiant amddiffyn plant ar gyfer darparwyr.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb Telerau Contractau - Gwiriadau DBS gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid paratoi arweiniad clir i swyddogion y Cyngor ynglŷn â pha gytundebau ddylai gynnwys yr angen i ofyn am wiriadau DBS ar staff y darparwyr.**
- **Rhaid edrych ar bob cytundeb gyda darparwyr sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc a sicrhau eu bod yn cynnwys cymal am DBS ac amddiffyn plant.**
- **Dylid cynnwys cymal perthnasol yn y cytundebau i esbonio canlyniadau peidio cael y gwiriadau DBS disgwyliedig.**
- **Dylid sicrhau bod cysondeb ar draws yr adrannau wrth holi darparwyr am drefniadau recriwtio diogel pan mae'r cytundebau yn cael eu gosod.**
- **Dylai swyddogion yr adrannau perthnasol edrych am wiriadau DBS a thystiolaeth o fynychu hyfforddiant diogelu gan staff darparwyr a ddefnyddir ar gyfer cytundebau perthnasol.**
- **Dylid cael trefniadau monitro cyson mewn lle i fonitro cytundebau ar draws y Cyngor gyda darparwyr.**
- **Dylid pwysleisio i ddarparwyr i hysbysu'r Cyngor yn amserol am unrhyw newid yn y cytundebau.**
- **Dylid ystyried nodi yn y cytundebau perthnasol y dylai swyddogion y Cyngor dderbyn rhestr o'r gweithwyr sy'n ymgymryd â'r gwaith perthnasol yn rheolaidd.**

# DEFNYDD HONORARIA
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol a chadarn mewn lle dros ddyfarnu taliadau honoraria; ymestyn cyfnodau honoraria ynghyd â sicrhau argaeledd a chyflawnrwydd polisïau a chanllawiau.

Cwmpas yr Archwiliad
Roedd yr adolygiad yn cynnwys gwirio sampl o swyddogion sydd wedi derbyn taliad honorariwm yn y flwyddyn ariannol gyfredol a chadarnhau bod dogfennaeth ddigonol wedi ei gyflwyno ar gyfer pob achos, gan gynnwys estyniadau cyfnodau honorariwm a newid cyfradd y taliadau. Nid oedd taliadau honoraria a wneir i athrawon yn syrthio i gwmpas yr archwiliad hwn.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan gwelwyd bod y defnydd o honoraria yn cael ei weithredu mewn modd teg, systematig a chyson yn unol â'r Polisi Gweithredu ar Lefel Uwch ac Honoraria a gyhoeddwyd gan yr Adran Adnoddau Dynol yn 2008 sydd ar gael ar y fewnrwyd.

Roedd yr achosion busnes a welwyd yn cynnwys y manylion disgwyliedig ac wedi cael eu hawdurdodi gan swyddogion priodol, er hyn ni welwyd rhai ar gyfer yr holl sampl - yn ôl y polisi mae angen i gyflwyno achos busnes ysgrifenedig. Er hyn, gwelwyd tystiolaeth glir fod pob swyddog yn y sampl yn ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol. Fodd bynnag, mae un grwp o swyddogion yn derbyn taliadau honorariwm ers 2001 ar gyfer amgylchiadau nad ydynt bellach yn ymddangos fel rhai "dros dro", sy'n awgrymu y dylid cyflwyno trefniadau mwy parhaol ar gyfer y gweithwyr hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nefnydd honoraria gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod achos busnes yn cael ei gyflwyno cyn bod unrhyw daliadau yn cael eu cymeradwyo a'i fod yn cael ei gymeradwyo gan swyddogion awdurdodedig.**

- **Dylai bod cais swyddogol yn cael ei gyflwyno ym mhob achos a'i fod yn cael ei gymeradwyo gan y swyddog awdurdodedig perthnasol.**

- **Dylai sicrhau bod swyddi'r swyddogion hynny sydd yn derbyn taliadau honoraria am ymgymryd â dyletswyddau sydd yn berthnasol i gytundeb cynnal a chadw yr A55 yn cael eu harfarnu'n briodol yn unol â chynllun arfarnu swyddi'r Cyngor.**

- **Dylai sicrhau bod cyfiawnhad ffurfiol am ymestyn y taliadau yn cael ei gadw ar ffeil.**

# CYSONI BANC Y SYSTEM INCWM
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gweithdrefnau swyddogol mewn lle ac wedi eu dogfennu ar gyfer cynnal cysoniadau banc y system incwm yn effeithiol, amserol, gyflawn a chywir a sicrhau bod trefniadau monitro digonol mewn lle, gan gynnwys elfen o ddilyniant i waith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) mewn perthynas â threfniadau cysoni 2011/12. Yn ychwanegol, gwirio bod rheolaethau mewnol digonol yn bodoli yn y broses o gynnal cysoniadau misol.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r gweithdrefnau sydd mewn lle ar gyfer cynnal cysoniadau banc a sicrhau bod canllawiau ar gael i swyddogion. Dethol sampl o cysoniadau banc yn 2012/13 a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau. Sicrhau bod cysoniadau banc yn cael eu hadolygu a'u harwyddo'n rheolaidd.

Prif Ddarganfyddiadau

Cadarnhawyd bod swyddog yn derbyn hyffroddiant ar y broses cysoni fel y gellid sicrhau bod swyddog ar gael i gwblhau'r gwaith yn absenoldeb y swyddog penodedig, fodd bynnag nid oes canllawiau cyfredol wedi eu creu sy'n esbonio'r broses dyddiol a misol. Gwelwyd hefyd fod cam ychwanegol i'r broses o ardystio'r taflenni cysoni, gyda'r Uwch Reolwr Refeniw bellach yn eu hardystio yn ogystal â'r Uwch Swyddog Incwm. Esboniwyd hefyd bod camau pellach wedi eu cymryd o fewn yr Uned Incwm i sichrau eu bod yn derbyn copïau personol o ddatganiadau banc a bod newid yn y system ffeilio sy'n hwyluso'r broses cysoni.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cysoni Banc y System Incwm gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid paratoi canllawiau cyfredol ar gyfer y prosesau cysoni dyddiol a misol.**
- **Dylid cyflwyno trefn er mwyn adnabod rhwystrau i allu cysoni'n fisol o fewn amser, er mwyn lliniaru'r rhwystrau cyn gynted â phosib.**

# SYSTEM TALIADAU - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilwydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**10. Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.**

Caiff y system Taliadau ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru.

Bwriad yr archwiliad oedd i sicrhau fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer prosesu, gweithredu a chysoni taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn adolygu'r taliadau a wnaed i gredydwyr y Cyngor yn ystod 2012/13.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gweithdrefnau a phrosesau priodol mewn lle ar gyfer y mwyafrif o reolaethau allweddol a adolygwyd ar gyfer y System Taliadau. Darganfuwyd bod systemau yn bodoli i sicrhau bod dyletswyddau allweddol ar gyfer prosesu a chysoni taliadau wedi eu dyrannu rhwng swyddogion, bod atebolrwydd ar gyfer gweithrediadau allweddol, a nad oes croestyniad yng nghyfrifioldebau a hawliau swyddogion.

Fodd bynnag, gwelwyd nad oes trefn priodol ar gyfer ddiweddaru'r ffeil sydd yn cynnwys llofnodion swyddogion sydd â'r hawl i awdurdodi ffurflenni pennawd swp (TR257). Mae'n amlwg nad yw nifer o'r rhestrau sydd mewn lle yn gywir a chyfredol, a bod hynny, ynghyd â'r nifer o restrau ym meddiant y Gwasanaeth Taliadau, yn eu gwneud yn anymarferol i'w defnyddio ac yn annibynadwy fel ffynhonell data cynhwysfawr ac awdurdodol. Nodwyd fod rhai aelodau o staff y Gwasanaeth Taliadau yn gallu adnabod llofnodion priodol drwy eu profiad yn eu swydd ond nid yw hynny'n gymwys ar gyfer staff newydd. Mae angen trefnu i'r Gwasanaeth Taliadau dderbyn rhestrau llofnodion awdurdodedig i arwyddo ffurflenni TR257 sydd yn gywir a chyfredol gan sicrhau fod y rhestrau sydd yn cael eu di-sodli yn cael eu gwaredu.

### Barn yr Archwiliad

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod gwasanaethau yn mynegi ym mhob achos priodol eu bod wedi derbyn yr eitemau a filiwyd amdanynt.**
- **Dylid sicrhau bod trefn mewn lle i ddiweddaru'r ffeil sydd yn cynnwys tystiolaeth o lofnodion y swyddogion sydd wedi eu hawdurdodi i lenwi ffurflen TR257.**

## SYSTEM GYFLOGAU - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:
**Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.**

Caiff y system gyflogau ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Bydd yr adolygiad yma yn canolbwyntio ar reolaethau cynnal y system gyflogau ar gyfer y flwyddyn 2012/13.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd ar y cyfan fod rheolaeth fewnol gryf yn bodoli o fewn yr Uned Gyflogau yn y broses o weinyddu a thalu cyflogau. Mae rolau'r swyddogion perthnasol wedi eu hamlinellu'n eglur, gyda Llawlyfr Cyflogau ar gael.

Mae trefniadau clir a manwl yn eu lle er mwyn gwirio cywirdeb cyn rhedeg cyflogresi, ac mae proses glir er mwyn gweithredu newidiadau, gyda gwahaniad dylestrwyddau priodol yn ei le.

Ni dderbyniwyd copi o Gynllun wrth Gefn Cyflogau i allu sicrhau bod cynlluniau priodol mewn lle pe bai argyfwng. Fodd bynnag, mae Cynllun Parhad Gwasanaeth ar gyfer yr Adran Gyllid yn ei chyfanrwydd ac fe gadarnhaodd y Rheolwr Cyflogau bod copi wrth gefn yn cael ei wneud y ddyddiol o'r system cyflogau ac yn cael ei gadw ar weinyddwr oddi ar y prif safle. Golygai hyn bod modd parhau i weithio ar y system drwy fynediad o unrhyw weinyddwr y Cyngor.

### <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, ac yn cael eu gweithredu. Fodd bynnag, awgrymir un argymhelliad:**

- **Dylid sicrhau bod Cynllun wrth Gefn yn gyfredol ac wrth law gyda swyddogion perthnasol yn ymwybodol o'r cynnwys.**

# BUDD-DALIADAU TAI DEWISOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod cysondeb a thryloywder yn y modd y dyrannir taliadau tai dewisol a bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllaw ymarfer gorau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu sampl o geisiadau am daliadau tai dewisol a ganiatawyd yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13 ac adolygu'r trefniadau o safbwynt caniatáu taliadau tai dewisol drwy sicrhau bod penderfyniadau a wnaed yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol proses benderfynu gref, ac adolygu sampl o geisiadau a gyflwynwyd ond a wrthodwyd a sicrhau bod cyfiawnhad digonol yn bodoli dros y penderfyniad i beidio caniatáu'r cais. Y prif amcan yw sicrhau fod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn gyfartal wrth weinyddu'r cynllun.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd ar y cyfan bod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn y broses o weinyddu taliadau tai dewisol. Byddai sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hysbysu'n brydlon a bod cofnod sy'n nodi sut y daethpwyd i benderfyniad yn fodd o gryfhau'r rheolaethau mewnol sydd eisioes yn bodoli.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Budd-daliadau Dewisol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, cyflwynir yr argymhelliad canlynol er mwyn cryfhau'r trefniadau ymhellach:**

- **Dylid ymdrechu i gadw cofnod manylach o'r penderfyniad i ddyrannu taliadau tai dewisol fel y gellid dangos bod trefn gyson ar gyfer gwneud y penderfyniadau.**

## SYSTEM BUDD-DALIADAU - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilwydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".**

Caiff y System Budd-dal ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer asesu a phrosesu ceisiadau budd-dal, bod y system budd-dal yn cyfrifo symiau budd-daliadau'n gywir ac fe'u telir yn amserol. Cadanrhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal, adolygu trefniadau rheoli perfformiad yr uned a gwirio bod trefniadau diogelu data digonol mewn lle.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio sampl o geisiadau budd-dal i sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal. Gwirio bod cysoniadau yn cael eu cynnal a bod y taliadau budd-dal yn cael eu cyfrifo a'u talu mewn modd cywir ac yn amserol. Asesu statws perfformiad y gwasanaeth ynglyn â gweithredu ar geisiadau a hysbysiadau budd-dal a gwirio bod y system budd-dal yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod yr holl ddata yn cael ei ddiogelu'n briodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn y broses o weinyddu budd-daliadau gyda'r ceisiadau yn cael eu hasesu a'u prosesu'n gywir. Mae'r amser a gymerir i brosesu ceisiadau yr un lefel â chyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn 2012/13. Gwelwyd hefyd bod y system yn cael ei ddiogelu'n briodol gyda threfniadau i gynnal copïau wrth gefn a bod y system yn cael ei ddiogelu rhag mynediad anawdurdodedig. Mae ychydig o faterion yn y broses cysoni lle mae problem sydd y tu allan i reolaeth yr Adran Gyllid yn eu rhwystro rhag cysoni, ond mater bychan yw hyn gan mai mater o sicrhau bod popeth wedi ei redeg drwy'r systemau ydyw.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, cyflwynir un argymhelliad er mwyn cryfhau'r trefniadau ymhellach:**

- **Dylid sicrhau fod rhwystrau sy'n atal y cysoni yn cael eu datrys h.y. bod swyddogion perthnasol yn edrych i mewn i unrhyw broblemau a bod y systemau perthnasol yn gweithio'n unol â'r disgwyl.**

# SYSTEM PAYE.NET
## Cyllid

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y system Paye.net yn cael ei defnyddio'n briodol a bod mynediad swyddogion i'r system yn unol â'r hyn sydd yn berthnasol i'w swydd e.e. hawl darllen yn unig. Gwiriwyd bod pob trafodyn yn cael ei brosesu'n gywir, bod y taliadau yn cael eu cysoni'n rheolaidd, bod trefniadau diogelwch digonol yn bodoli a bod unrhyw ad-daliadau yn cael eu cymeradwyo gan swyddogion awdurdodedig.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>

Derbyniwyd copi o ganllawiau'r Cyngor sydd yn ymwneud â'r system Paye.net a sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr yn ymwybodol ohonynt ac yn cydymffurfio gyda'r gofynion. Gwiriwyd bod rheolaeth dros sefydlu defnyddwyr a bod rhestr o ddefnyddwyr cyfredol y system ar gael a gwirio bod eu hawliau mynediad yn briodol. Hefyd, gwiriwyd bod cysoniadau dyddiol yn cael eu cynnal rhwng manylion a dderbynnir o'r banc ynghyd ag adroddiadau system AIM, yn ogystal â manylion sieciau. Cadarnhawyd bod ad-daliadau yn cael eu hawdurdodi'n briodol a bod cyfyngiad dros y swyddogion all brosesu ad-daliad.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>

Ar y cyfan gwelwyd bod y System Paye.net yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Gwelwyd mai swyddog annibynnol o fewn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth sydd yn gyfrifol am osod defnyddwyr newydd i fyny ar y system ac sydd yn gyfrifol am newid hawliau swyddogion pe bai angen. Mae swyddogion eraill priodol wedi eu penodi ar gyfer gweinyddu'r system - mae gan y swyddogion yma hawliau ychwanegol sydd yn cynnwys gwneud ad-daliadau ac ail-osod cyfrineiriau. Y Prif Ariannwr sydd yn monitro'r system, trwy greu adroddiadau dyddiol a'u gwirio. Mae'r hawl i wneud ad-daliadau wedi ei gyfyngu i nifer fechan o swyddogion.

Er bod aelodau newydd o dîm y Ganolfan Gyswllt yn derbyn hyfforddiant llawn, a chanllawiau wedi cael eu creu ar eu cyfer, nid oedd lefel yr hyfforddiant a chanllawiau yn gyson ar gyfer defnyddwyr eraill.

Mae pob un o ddefnyddwyr y system Paye.net yn ymwybodol o'r drefn gywir i'w ddilyn wrth hysbysu cwsmeriaid am ffioedd, a dangosodd profion fod hyn yn cael ei weithredu'n gywir.

## Barn yr Archwiliad

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System paye.net gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai bod canllawiau cyfredol ar gyfer holl ddefnyddwyr y system a'u bod yn cael eu diweddaru pan fo'r angen.**
- **Dylid sicrhau bod pob defnyddiwr newydd o'r system yn derbyn hyfforddiant o sut i ddefnyddio'r system cyn cael ei ddefnyddio a chymryd taliadau gan y cyhoedd.**
- **Dylid atgoffa'r goruchwylwyr bod angen e-bostio'r rheswm am wneud ad-daliad i'r Prif Ariannwr ar bob achlysur er mwyn sicrhau bod trywydd archwilio.**

# SYSTEM TRETH CYNGOR - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilwydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

**10. Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol.**

Caiff y system Treth Cyngor ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod cyfansymiau biliau Treth Cyngor wedi cael eu gosod yn gywir ac yn unol â'r symiau a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ogystal ag awdurdodau lleol eraill.

Sicrhau bod y cyfansymiau eiddo yng Ngwynedd wedi cael eu cofnodi'n gywir ar y system ac yn cyd-fynd ag adroddiadau Swyddfa Brisio. Cadarnhau bod y cyfrif ariannol wedi cael ei ddiweddaru'n briodol a bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer adennill dyledion treth cyngor yn ogystal â sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer monitro a rheoli perfformiad yr Uned.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu a phrofi bod canllawiau, cofnodion a'r gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer rheoli, casglu a dosbarthu Treth Cyngor 2012-13.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gweithdrefnau a phrosesau priodol mewn lle ar gyfer holl reolaethau allweddol y bu eu hadolygu ar gyfer y system trethiant lleol. Darganfuwyd bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal i sicrhau cywirdeb y biliau sydd yn cael eu creu, o ran eu nifer a'i gwerth. Gwiriwyd paramedrau'r system yn unol â gwerth y trethi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 01/03/2012 ar gyfer pob plwyf, a cafwyd hwy yn gywir. Nodwyd fod prosesau priodol ar gyfer anfon gwysion yn amserol ar gyfer adennill. Gwelwyd fod awdurdodiad priodol, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol, wedi ei dderbyn ar gyfer y dyledion treth bu eu dileu hyd at adeg yr archwiliad. Gwelwyd fod cysoni dyddiol rhwng y system trethiant lleol a'r ffynonellau eraill o'r refeniw, ynghyd â chysoniad misol gyda data y Swyddfa Brisio. Gwelwyd fod ymchwiliadau priodol i unrhyw anghysoniadau fyddai yn dod i'r amlwg. Gwelwyd fod monitro misol o'r casgliad yn erbyn y targed, gyda swyddogion yn adrodd ar sail proffil chwarterol, yn unol â threfniadau monitro perfformiad corfforaethol y Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# CYMUNEDAU'N GYNTAF - STRATEGAETH YMADAEL
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu arian gweithgareddau ar gyfer Strategaeth Ymadael 01/10/12 – 31/03/13 y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn canolbwyntio ar y trefniadau a'r rheolaethau yn y meysydd canlynol:

- Fod swyddog priodol ar ran Cyngor Gwynedd yn derbyn y cynnig grant.
- Fod cydymffurfiaeth â llythyr cynnig y grant yn ogystal â thelerau ac amodau'r grant.
- Fod tystiolaeth briodol yn bodoli i gefnogi'r defnydd a wnaethpwyd o'r arian grant.
- Ceisiadau priodol yn cael eu gwneud i Lywodraeth Cymru am yr arian grant.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd rhai materion sydd angen sylw gan y swyddogion sy'n gweinyddu'r grant, ond ar y cyfan gwelwyd fod yr Uwch Swyddog Cist Gwynedd yn yn dilyn fyny yn rheolaidd ar y mudiadau perthnasol, er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth briodol yn cael ei dderbyn i gefnogi'r gwariant.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth arian gweithgareddau Strategaeth Ymadael 01/10/12 – 31/03/13 Cymunedau'n Gyntaf gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod mudiadau yn cyflwyno anfonebau ac nid datganiadau wrth gyflwyno tystiolaeth o'u gwariant.**

- **Dylid sicrhau bod unrhyw ffurflenni costau teithio a ddefnyddir i hawlio arian wedi cael eu gwirio a'u hardystio gan swyddog ar wahân i'r gweithiwr yn ogystal â'r gweithiwr.**

- **Dylid sicrhau mai ond arian sydd yn deilwng o dan amodau a thelerau'r grant a delir allan i'r mudiadau.**

## CYMUNEDAU'N GYNTAF - TREFNIADAU CAU I LAWR
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cau lawr y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn canolbwyntio ar y trefniadau a'r rheolaethau yn y meysydd canlynol:

- Bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer delio gyda staff Cymunedau'n Gyntaf lle mae'r swyddfeydd yn cau.
- Bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cau'r swyddfeydd a delio gydag eiddo a chynnwys y swyddfeydd.
- Bod trefn briodol mewn lle ar gyfer talu am unrhyw anfonebau dyledus ar ôl i'r swyddfeydd cau.
- Bod trefn briodol mewn lle ar gyfer cau'r cyfrifon imprest y swyddfeydd.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod y Swyddog Monitro Cymunedau'n Gyntaf wedi gwneud y trefniadau priodol i sicrhau fod y rhaglen yn cau lawr yn unol â'r disgwyl ond roedd ambell fater, o safbwynt contractau ffôn a cyfrifon imprest, yn parhau i fod angen sylw.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau cau i lawr y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Swyddog Monitro Cymunedau'n Gyntaf ail gysylltu gyda'r Ddesg Archebion Cefnogol, er mwyn sicrhau fod contractau'r ffonau yn cael eu diddymu a dylid gofyn am gadarnhad gan y Ddesg Archebion Cefnogol fod y contractau wedi eu diddymu.**

- **Dylai'r Cymhorthydd Cyfrifeg sicrhau fod yr arian imprest yn cael ei dalu mewn i gyfrif y Cyngor, bod y ceisiadau imprest yn cael eu prosesu a bod y cyfrifon yn cael eu cau lawr cyn gynted â phosibl.**

# CYNLLUN GENESIS CYMRU 2
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Genesis Cymru 2 yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a WEFO.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio bod cytundeb mewn lle rhwng y partïon perthnasol ar delerau, amodau a chanllawiau Cynllun Genesis Cymru 2 a bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion yma, gyda'r gwasanaethau mae'r grant yn eu cynnig yn cael eu targedu at yr unigolion perthnasol. Gwirio fod rheolaeth dros wariant gyda'r grant, bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, a gwirio mai sefydliadau priodol yn unig sy'n cael eu defnyddio er mwyn bodloni targedau'r grant.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd fod trefniadau pendant mewn lle ar gyfer cyfeirio unigolion i'r cynllun gyda meini prawf yn eu lle er mwyn sicrhau mai'r unigolion cywir sy'n derbyn cefnogaeth yn unol ag amcanion y cynllun. Yn ogystal, gwelwyd fod trefniadau yn bodoli er mwyn cadw manylion cyfrinachol cyfranogwyr ar ffeil yn ddiogel a bod logo a geiriau perthnasol yr UE yn ymddangos ar ddogfennau Genesis Cymru 2 yng Ngwynedd. Gwelwyd fod rhifyddeg anfonebau ar gyfer sampl o daliadau gyda'r cynllun yn gywir.
Y prif wendidau a adnabuwyd oedd bod lle i gryfhau systemau diogelwch TG er mwyn diogelu dogfennau sensitif electronig gyda'r cynllun. Yn ogystal, gwelwyd nad oes system yn ei le ar gyfer monitro gwariant y cynllun yn erbyn y proffil gwariant. Nid oedd gwiriadau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd i sicrhau bod darparwyr gofal plant symudol a ddefnyddiwyd yn yswiriedig a bod eu gweithwyr wedi derbyn gwiriadau DBS.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cynllun Genesis Cymru 2 gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ymdrechu i gyflwyno adroddiadau perfformiad a chyllidol i Llywodraeth Cymru yn unol â'r tabl hawliadau Genesis Cymru 2.**
- **Dylid adnewyddu'r daenlen monitro gwariant Genesis Gwynedd er mwyn gallu ei ddefnyddio i fonitro gwir wariant y cynllun yn erbyn y proffil gwariant.**
- **Dylid gofyn am restr o fanylion gweithwyr darparwyr gofal plant symudol a ddefnyddiwyd gyda'r cynllun, gan gynnwys dyddiad bu gweithwyr dderbyn gwiriad DBS, yn ogystal â gofyn i'r darparwyr gofal plant hysbysu Genesis Gwynedd yn syth pe bai newid i'r wybodaeth yma. Os yw'r darparwyr gofal plant yn gwrthod cydweithio ar hyn, ni ddylid defnyddio eu gwasanaeth yn y dyfodol.**

# PROSIECT LLWYBR CYFLOGI PRENTISIAID IFANC
## Economi a Chymuned

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu 'Prosiect Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc'.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio trefniadau gweinyddu'r prosiect gan sicrhau fod y trefniadau'n cydymffurfio â'r cytundeb. Gwirio hefyd fod rheolaethau disgwyliedig mewn lle i liniaru unrhyw risg sy'n ymwneud â'r prosiect.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd bod prentisiaid yng Ngwynedd yn cael eu hyfforddi yn y maes peirianneg a sgiliau perthnasol yn unol â'r cytundeb. Hyd at Hydref 2012 roedd 46 prentis yn cael eu cyflogi gyda'r targed yn y cytundeb yn nodi hyd at 90 prentis erbyn diwedd oes y rhaglen ar 30/03/14. Nid yw'n bosibl gweld ar hyn o bryd os fydd y cwmni yn cyrraedd y targed yma, a deëllir fod y cwmni wedi cael anawsterau yn 2012 i gofrestru dysgwyr newydd gan fod diddordeb gwael gan gyflogwyr. Er hynny, deëllir fod ymdrechion wedi eu gwneud gan y cwmni i ddenu prentisiaid newydd drwy gysylltu â chyflogwyr cyfredol sydd ar y rhaglen a thrwy ysgrifennu i gyflogwyr newydd.

Nid oedd cyfrifon terfynol Cwmni Prentis Menai blwyddyn yn diweddu 31/07/12 wedi eu derbyn ar ddiwrnod yr archwiliad.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Prosiect Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# CLEIANT TENAU
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Pwrpas yr archwiliad oedd adolygu gweithrediad client tenau yng Ngwynedd a sicrhau bod ystyriaethau diogelwch a rheoli perthnasol wedi'u rhoi ar waith.

Cwmpas yr Archwiliad

Cynhaliwyd yr archwiliad drwy adolygu polisïau, gosodiadau a rheolaethau mynediad yn ogystal â thrafod y broses weithredu gyda staff.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae'r amgylchedd client tenau wedi cael ei adeiladu a'i ffurfweddu yn unol ag arferion da, ac yn cael ei ddiogelu'n dda. Adnabuwyd rhai mân faterion cyfluniad yn ystod yr archwiliad, ac mae TG eisoes wedi mynd i'r afael â hwy. Mae'r unig faterion rheoli sydd bellach yn sefyll yn ymwneud â gallu TG i fonitro ac adolygu'r cyfluniad client tenau, gan nad yw'r offer meddalwedd priodol eto wedi'u defnyddio. Nid oes yr un o'r materion hyn yn cynrychioli risg uchel ac nid oes angen unrhyw gamau brys i ymdrin â hwy.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweithrediad y cleiant tenau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai cyfyngu mynediad Gweinyddwr i'r aelodau hynny o TG sydd yn uniongyrchol gyfrifol am weinyddu XenApp.**
- **Dylid cloi cyfrifon segur neu eu dileu os nad oes eu hangen mwyach.**
- **Dylid ail-leoli pob polisi Citrix i'r *Active Directory*.**
- **Dylid galluogi'r opsiwn o logio cyfluniad XenApp a chreu achos Gweinyddwr SQL addas i gadw'r log gwybodaeth ar gyfer adolygiad cyfnodol.**
- **Dylai TG wneud defnydd o'r offeryn PowerShell a ddarparwyd i restru gwybodaeth sylfaenol am gymwysiadau a gyhoeddwyd a chyfluniad gweinyddwr.**
- **Dylid gwerthuso ddefnyddioldeb y gorchymyn auditlog er mwyn asesu ei ddefnyddioldeb wrth olrhain mewngofnodi ac allgofnodi.**

# GWERTHUSIAD O'R PEILOT CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r defnydd a wneir o rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol gan Cyngor Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r polisïau a'r defnydd a wneir mewn perthynas â rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol a'r modd yr ymgysylltir â'r cyhoedd. Mae teclynnau cyfathrebu mewnol y tu allan i sgôp yr archwiliad hwn.

Prif Ddarganfyddiadau

Nodwyd fod Tîm Cyfathrebu Cyngor Gwynedd yn canolbwyntio ar gyfrifon Facebook a Twitter ar hyn o bryd. Ar adeg yr archwiliad, roedd Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd mewn fersiwn drafft. Wedi i'r polisi yma gael ei gymeradwyo, byddai modd hyrwyddo ei fodolaeth a'i gynnwys i staff a'i orfodi. Dylai'r Cyngor geisio codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol drwy arddangos eu cyfeiriadau ar yr holl ddogfennau cyhoeddus a chyhoeddiadau.

Nodwyd fod adborth da wedi ei dderbyn gan aelodau'r cyhoedd o ran y defnydd o'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gan y Cyngor yn ystod llifogydd Tachwedd 2012 a'r cyfnod o dywydd garw ym mis Ionawr 2013, gyda diweddariadau rheolaidd ar y ffyrdd oedd ar gau yn ogystal â pa ffyrdd oedd yn cael eu graeanu ac yn y blaen.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb y gwerthusiad o'r Peilot Cyfryngau Cymdeithasol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ymgeisio i godi ymwybyddiaeth o safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor trwy arddangos cyfeiriadau'r safleoedd yma ar holl gyhoeddiadau a dogfennau'r Cyngor, yn cynnwys llythyrau a ffurflenni.**

- **Dylid cymeradwyo polisi cyfryngau cymdeithasol Cyngor Gwynedd a'i wneud yn weithredol cyn gynted â phosib.**

- **Dylid hysbysu pob gwasanaeth/adran bod gan y Cyngor bolisi cyfryngau cymdeithasol mewn lle fel bod modd i staff cydymffurfio gydag amcanion y Cyngor.**

# RHEOLI NEWID SYSTEMAU TG
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod rheolaethau priodol mewn lle ar gyfer rheoli newidiadau i systemau TG y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn adolygu'r prosesau mewn lle ar gyfer derbyn, cofnodi a monitro newidiadau ynghyd â'r trefniadau ar gyfer ymgorffori newidiadau i systemau byw. Bwriedir gwerthuso effeithiolrwydd y rheolaethau mewn lle drwy adolygu'r dogfennau mewn perthynas â sampl o newidiadau a fu eu cwblhau yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol diwethaf.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn y Cyngor, mae mesurau rheoli newid wedi eu diffinio mewn proses swyddogol, a camau gweithredu wedi eu dogfennu. Ar adeg yr archwiliad, mae'r ddogfen sydd yn disgrifio'r broses â statws drafft. Mae gweithgor o swyddogion wedi ei sefydlu, sydd â chyfrifoldeb am asesu ac awdurdodi newidiadau, a mae'r system gwybodaeth mewn lle yn rhoi sgôp i'r Gwasanaeth TG weithredu trefn cynhwysfawr ar gyfer rheoli newid.

Fodd bynnag, nid oes gweithrediad eang o'r weithdrefn ar draws y Gwasanaeth TG. Mae'n ymddangos fod y syniad o gofnodi ac aros i phob newid gael ei awdurdodi cyn bod modd gweithredu yn cael ei ystyried gan rai aelodau o staff fel proses gweinyddol sydd yn ychwanegu oediad a baich gwaith yn hytrach nag elfennau o reolaeth. Mae angen i'r Gwasanaeth TG sefydlu cynllun gweithredu ar gyfer trosglwyddo'r gweithdrefn sydd wedi ei ddylunio i fod yn ymarfer cyffredinol ar gyfer staff, gan ystyried camau fel asesu'r rhwystrau presennol a cyflwyno datrysiadau ymarferol ynghyd â chyflwyno camau gorfodaeth lle yn briodol. Mae'r broses drafft yn mynegi fod gan y gweithgor rôl i adnabod unrhyw newidiadau sydd wedi eu gweithredu heb ddilyn y camau disgwyliedig. Gan fod y gweithgor yn ymwybodol bod achosion o hyn, fe fyddai yn briodol i sefydlu cynllun gweithredu priodol ar eu cyfer.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb mewn rheoli newid gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai rheolwyr y Gwasanaeth TG ymhelaethu ar eu disgrifiad o'r newidiadau y byddent yn disgwyl i fod yn ddarostyngedig i'r broses swyddogol ar gyfer rheoli newid, drwy gynnig esiamplau lle bod angen, fel bod staff yn glir am y gofynion arnynt ac er mwyn tynnu'r elfennau o amwyster yn y modd y gellir diffinio'r gofynion ar adeg yr archwiliad.**
- **Dylid ymgeisio i adnabod unrhyw rwystrau sydd yn atal staff y Gwasanaeth TG rhag cydymffurfio â'r broses swyddogol ar gyfer rheoli newidiadau a sefydlu cynllun ymarferol i'w gorchfygu drwy gyd-weithio gydag unigolion fel bod y broses yn cael ei fabwysiadu fel gweithdrefn dydd i ddydd yn hytrach nag ôl-ystyriaeth neu dasg weinyddol di-angen.**
- **Wedi sefydlu proses rheoli newid y mae rheolwyr yn ei ystyried i fod yn ymarferol a gweithredadwy i lefel disgwyliedig gan staff y Gwasanaeth TG, dylai'r gweithgor rheoli newid (swyddogion TG) weithredu ar eu rôl o orfodi'r weithdrefn drwy fonitro unrhyw addasiadau sydd yn cael eu cyflawni tu allan i'r drefn swyddogol a chymryd camau perthnasol i gywiro hynny.**

# PROSESU DATA CYFLENWYR YNNI
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r trefniadau sydd mewn lle i brosesu data defnydd ynni gan holl eiddo'r Cyngor a bod taliadau a wneir am ddefnydd ynni yn gywir.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r mesuryddion sydd yn eu lle i gofnodi defnydd ynni holl eiddo'r Cyngor, a sicrhau bod trefniadau mewn lle i alluogi'r Cyngor i gyflwyno adroddiadau sydd yn gyflawn a chywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod system mewn lle ar gyfer cofnodi darlleniadau defnydd ynni holl eiddo'r Cyngor, ond mae llawer o achosion o ddarlleniadau amcangyfrifedig yn cael eu derbyn a nid yw'r broses wedi ei awtomeiddio. Oherwydd y gwaith prosesu a mewnbynnu darlleniadau i'r system, nid oes amser yn weddill i gynnal ymarferion adnabod ac ymchwilio eithriadau digonol.

Gan fod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar dueddiadau defnydd ynni, ni fyddai'n bosib adnabod unrhyw eithriadau drwy ddefnyddio'r ffigyrau yma. Mae hyn yn tanseilio unrhyw broses o adnabod eithriadau.

Mae sgôp i reolwyr safle fod yn rhagweithiol gan hysbysu cyflenwyr ynni o wir ddarlleniadau.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol wrth brosesu data cyflenwyr ynni gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Eiddo werthuso'r costau a'r buddianau o archebu modiwl i'r system 'Stark' sydd yn galluogi mewnbynnu data a dderbynnwyd gan gyflenwyr ynni yn awtomatig i'r system.**
- **Dylid cymryd camau i annog rheolwyr safle i yrru gwir ddarlleniadau i'r cyflenwyr ynni yn gofnodol i sicrhau cywirdeb data ac i alluogi swyddogion cadwraeth ynni i adnabod eithriadau yn gynharach.**
- **Dylid gosod 'Automatic Meter Readers' ym mhob adeilad ble gellir cyfiawnhau hynny, e.e. ble mae adeilad yn defnyddio mwy na trothwy penodol o ynni, i sicrhau cywirdeb data ynni gan gyflenwyr.**

# RHEOLI CONTRACTAU - YSGOL ARDAL BRO DYSYNNI
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr adolygiad yma yw archwilio taliadau cytundeb Ysgol Ardal Bro Dysynni er mwyn sicrhau bod dull rheoli contractau yn ddigonol yn y maes penodol yma.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu trefniadau awdurdodi a thalu'r contractwr gan sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle i sicrhau cywirdeb.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd ar y cyfan bod rheolaeth fewnol dda yn bodoli wrth rheoli cytundeb Ysgol Ardal Bro Dysynni. Yr unig wendidau a welwyd oedd bod un taliad interim wedi ei wneud ychydig ddyddiau'n hwyr a bod dim anfoneb TAW i gyd-fynd â'r taliad interim cyntaf.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Rheoli Contractau - Ysgol Ardal Bro Dysynni gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Awgrymir un argymhelliad er mwyn cryfhau'r rheolaethau ymhellach:**

- **Dylid sicrhau bod y tystysgrifau TAW i gyd wedi eu derbyn.**

# CYLLID CLEIENTAU
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r mesurau a threfniadau sydd mewn lle mewn perthynas â cheisiadau gan gleientau sydd yn mynychu cartrefi preswyl / nyrsio am gymorth ariannol er mwyn sicrhau fod cydymffurfiaeth gyda rheolau CRAG (Charging for Residential Accomodation Guide).

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>

Gwirio sampl o ffurflenni asesiadau ariannol cleientau er mwyn sicrhau fod cymorth ariannol digonol yn cael ei roi i'r cleientau gan Cyngor Gwynedd er mwyn iddynt dalu am eu gofal. Sicrhau fod swyddogion Cyllid Cleientau yn cydymffurfio â rheolau CRAG er mwyn cynnal asesiadau ariannol a bod yr asesiad ariannol yn cael eu cyfrifo yn gywir. Sicrhau fod trefniadau cadarn mewn lle gan swyddogion Cyllid Cleientau er mwyn sicrhau fod y wybodaeth mae cleientau yn ei ddarparu yn y ffurflen asesu yn gywir. Archwiliwyd sampl o ffolderi 20 o gleientiaid Gwynedd sef 12 cleient o Arfon a 4 cleient yr un o Ddwyfor a Meirionnydd.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>

Darganfuwyd fod Swyddogion Cyllid Cleientau yn cydymffurfio gyda rheolau CRAG er mwyn cyfrifo gallu preswylwyr i dalu am eu gofal mewn cartrefi preswyl / nyrsio. Gwelwyd fod ffurflenni pwrpasol wedi ei dylunio ar gyfer asesu gallu preswyliwr i dalu am eu gofal a darganfuwyd fod camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn esbonio i gleientau sut y bydd eu cyfraniad tuag at eu gofal yn cael ei gyfrifo. Bydd cleientau yn cwblhau ffurflenni E33 Cais am Asesiad Ariannol Gofal Preswyl / Nyrsio wrth fynd i ofal, bydd manylion eu hincwm, cyfalaf, eiddo a manylion eu perthnasau agosaf yn cael eu gynnwys yn y ffurflenni hyn er mwyn i Swyddogion Cyllid Cleientau asesu cyfraniad y cleient tuag at gost eu gofal. Darganfuwyd nad oes rheolaethau cadarn mewn lle ar gyfer gwirio asesiadau ariannol cleientau. Dylid cymryd camau priodol er mwyn gwirio cyfraniadau cleientau tuag at gost eu gofal. Gwelwyd fod mân gamgymeriadau wedi eu gwneud yn rhai asesiadau ariannol gyda throsglwyddo ffigyrau i'r ffurflen 'Asesiad o Allu Preswyliwr i Dalu am eu Gofal', ond roedd rheolaethau mewn lle gan Swyddogion Cyllid Cleientau er mwyn gwirio'r ffigyrau caiff eu cynnwys yn ffurflenni E33. Gwelwyd fod angen i swyddogion gymryd gofal wrth gyfrifo cyfraniad cleientau tuag at eu gofal oherwydd gwelwyd man-gymeriadau yn rhai ffolderi cleientau yn y sampl a archwiliwyd. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol er mwyn cryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb Cyllid Cleientau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Awgrymir dylai ffurflen Datganiad i Hunan Arianwyr gael ei gynnwys yn ffolder holl gleientau sydd yn ariannu eu gofal ei hunain.**
- **Dylid sicrhau fod tystiolaeth o unrhyw ohebiaeth gyda cleientau yn cael eu cynnwys yn ffolderi'r cleientau. Awgrymir dylid gwirio llythyrau a chyfrifiadau er mwyn sicrhau fod y wybodaeth ar y llythyrau yn gywir.**
- **Dylid sicrhau fod cofnod ysgrifenedig yn cael ei gynnwys yn ffolderi'r cleientau o unryw alwadau ffôn caiff ei wneud i wirio manylion cleientau.**

# TREFNIADAU CONTRACTIO GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod contract/cytundebau yn bodoli i bob darn o waith ac ar gyfer bob darparwr ar draws yr adran, a bod y rhain o ansawdd/manylder dderbyniol fel y gellir eu gorfodi. Yn ychwanegol sicrhau bod y contract/cytundebau yn cael eu monitro sy'n sicrhau bod y gwasanaeth a dderbynnir yn gyson ac o'r ansawdd ddisgwyliedig i anghenion y defnyddiwr.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio rheolaethau mewnol sy'n bodoli ar gyfer sampl o gontractau / cytundebau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid yw'r archwiliad yn cwmpasu trefniadau cytundebu gan y gwasanaethau Darparu a Hamdden.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd nifer o engreifftiau cryf o ymarfer da oddi fewn yr Uned Comisiynu a Chontractau ac ar y maes trefniadau contractio. Gwelir bod cynnydd yn y rheolaethau a threfniadau ar gyfer monitro cytundebau / SLA yn benodol. Fodd bynnag, wrth edrych ar gytundebau ar draws y Gwasanaeth Cymdeithasol gwelir bod gwendiadau mewn rhai trefniadau ac o ganlyniad, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwilwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb trefniadau Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Er mwyn amddiffyn budd yr Awdurdod dylid gwirio bod cytundebau yn bodoli gyda bob darparwr, a lle nad oes, dylid trefnu cael un wedi ei arwyddo cyn gynted a phosibl.**
- **Dylid cytuno ar drefn pendant o bwy sydd yn gyfrifol am gadw rhai cytundebau e.e. cytundebau cyffuriau ac alcohol.**
- **Dylid cysylltiad cyson fod rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Uned Gyfreithiol i sefydlu bod y cytundebau sydd yn cael ei defnyddio yn cael eu cymeradwyo yn gyfreithiol a bod tystiolaeth o'r cymeradwyaeth yn bodoli.**
- **Dylai'r contractau gynnwys yr angen i ddarparwyr fod yn gofrestredig gyda safonau lle'n briodol e.e. ISO 9000 a dylid sicrhau bod yr Awdurdod yn derbyn tystiolaeth o hyn ar bob achlysur.**
- **Dylid cysidro newid y pwynt pedwar yn y fframwaith monitro gwirfoddoli os nad yw holiaduron yn cael ei rhoi allan i ddarparwyr gwasanaeth.**
- **Dylid addasu'r fframwaith monitro er mwyn adlewyrchu y newidiadau yn y cytundebau newydd, ac yna hyfforddi'r darparwyr a'r swyddogion am y newidiadau.**

# LLETY I BOBL IFANC YN GADAEL GOFAL
## Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod darparwyr addas wedi eu hadnabod ar rhestr fer a bod y gytundeb gyda'r darparwyr llwyddianus yn gadarn ac addas. Yn ychwanegol gwirwyd bod arbedion o fewn y gwasanaeth wedi eu cyflawni ac yn barhaol.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Gwiriwyd y rhestr fer o ddarparwyr ac ar sail sampl gwiriwyd bod y broses tendro wedi ei ddilyn a bod contractau wedi eu cwblhau a'u awdurdodi yn berthnasol. Gwiriwyd hefyd bod y cynllun arbedion wedi ei gyflawni fel y disgwylir.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelir bod enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn i Llety i Bobl Ifanc yn Gadael Gofal a gwelwyd bod llwyddiant wedi bod mewn denu cwmniau ar restr fer sydd o ganlyniad yn golygu bod cost uned wedi gostwng, ac hynny wedi ei adlewyrchu yn y gyllideb. Fodd bynnag roedd ambell wendid yn y rheolaethau mewnol. Oherwydd hyn, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y meysydd hyn â amlygwyd.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb Llety i Bobl Ifanc yn Gadael Gofal gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid dilyn rheol 7 Rheolau Gweithdrefn contractau ar bob achlysur wrth osod gwaith â gwerth llai na £50,000, er mwyn gallu arddangos uniondeb y broses, fydd yn amddiffyn swyddogion rhag honiadau o drefniadau amhriodol.**

- **Gan fod y gontract wedi ei mabwysiadu o'r newydd dylid derbyn sicrhad cyfreithiol ei fod yn ddigon cadarn i amddiffyn y Cyngor petai her gyfreithiol yn codi.**

- **Mae'r archwiliwr yn cydnabod bod risgiau wedi eu hadnabod a'u lliniaru yn y cynllun hwn, ond dylid cael cofrestr risg swyddogol i unrhyw gynllun/prosiect o'r fath yn y dyfodol er mwyn hwyluso'r broses monitro a sicrhau bod pob cam i liniaru risgiau yn cael eu gweithredu.**

- **Mi fyddai'n fuddiol cael log o wersi a ddysgwyd wedi ei baratoi er mwyn sicrhau nad yw unrhyw camgymeriad yn cael ei ail adrodd mewn cynllun/prosiect o'r math yn y dyfodol.**

# CLUDIANT CYMUNEDOL
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod darpariaeth ar gyfer cludiant cymunedol yn cwrdd â'r amcanion sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2012/13.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd derbyn cadarnhad fod yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd wedi cynnal adolygiad o'u darpariaeth ar gyfer cludiant cymunedol a bod y ceisiadau am y ddarpariaeth yn cael eu gwireddu mewn 92% o achosion. Gwiriwyd bod 2 gytundeb cludiant cymunedol newydd wedi eu dynodi ar gyfer tacsi ar alw a bod trigolion o fewn un gymuned yn y Sir wedi elwa o gynllun peilot i hyrwyddo rhannu ceir ar gyfer siwrnai lleol.

Prif Ddarganfyddiadau

Derbynia'r Cyngor Grant Gwasanaeth Trafnidiaeth Leol oddi wrth Lywodraeth Cymru er mwyn darparu gwasanaethau trafnidiaeth leol gyda 10% o'r grant yn mynd tuag at ddarparu a hybu Cludiant Cymunedol. Mae'r ffordd bydd y grant hwn yn cael ei weinyddu ynghyd â strategaeth ranbarthol sydd angen ei ddatblygu yn y dyfodol agos yn mynd i gael effaith ar y ffordd y bydd yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn ariannu a gweinyddu'r grant ar gyfer Cludiant Cymunedol.

Yn ôl Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd am 2012/13 un o'r buddion i'w gweithredu yn ystod 2012/13 gan yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd ar gyfer Cludiant Cymunedol oedd "Byddwn yn deall bodlonrwydd defnyddwyr o safbwynt darpariaeth cludiant cymunedol ar gyfer y flwyddyn". Gwelwyd o system Rheoli Perfformiad Ffynnon fod yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd wedi cynnal arolwg yn Medi/Hydref 2011 ar fodlonrwydd y ddarpariaeth Cludiant Cymunedol. Gwelwyd o'r nodiadau ar y system Rheoli Perfformiad Ffynnon fod y perfformiad ar gyfer 2011/12 yn dda ond bod angen gwaith i sicrhau bod data mwy cadarn ar gyfer 2012/13. Ni welwyd tystiolaeth fod arolwg wedi ei gynnal yn 2012/13 ond derbyniwyd cadarnhad fod arolwg i'w gynnal yn Ebrill 2013. Yn ogystal roedd angen i'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd hyrwyddo cynllun peilot rhannu ceir mewn un gymuned yng Ngwynedd. Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Cydlynydd Cludiant, Uned Trafnidiaeth Gofal Stryd fod aelod o'r cyhoedd wedi dangos diddordeb mewn datblygu cynllun rhannu ceir yn ardal Harlech yn 2012/13 ond nid yw hyn wedi datblygu ymhellach.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd ymdrechu i gynnal arolwg ar fodlonrwydd gyda'r ddarpariaeth cludiant cymunedol yn unol â Chynllun Strategol Cyngor Gwynedd.**

- **Dylai'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd ystyried sut y gellir datblygu cynllun peilot i hyrwyddo rhannu ceir mewn un gymuned yng Ngwynedd.**

# PARTNERIAETH TRACC
## Rheoleiddio

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau bod y Bartneriaeth TraCC wedi cwrdd â'i amcanion a bod Cyngor Gwynedd yn dewis a dethol prosiectau i'w cyflwyno i TraCC er mwyn eu cyllido. Sicrhau fod trefniadau monitro'r prosiectau wedi eu sefydlu o fewn yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Llunnir yr adroddiad drwy adolygu'r cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys a TraCC gan sicrhau fod Uned Gofal Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn ymwybodol o ofynion a disgwyliadau'r cytundeb.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Cynhaliwyd profion archwilio ar 16 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 12 o'r rheolaethau hyn. Y prif fater i'w nodi a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd Cyngor Gwynedd wedi datblygu dolen gyswllt ar wefan y Cyngor yn unol â gofyn Adolygiad Llywodraeth Cymru. Nid oedd trefniadau pendant i fonitro a chofnodi dogfennau a gohebiaeth ar gyfer y prosiectau, ac mae angen sefydlu protocol ar gyfer comisiynu gwaith gan Ymgynghoriaeth Gwynedd.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau o fewn yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd i ymateb i ofynion a disgwyliadau'r cytundeb Partneriaeth TraCC, gan fod rheolaethau mewn lle ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai Cyngor Gwynedd greu dolen gyswllt ar wefan y Cyngor fydd yn rhoi mynediad i gwefan TraCC ac i bapurau cyfarfodydd TraCC.**

- **Dylid sefydlu trefn ffeilio'r dogfennau ac unrhyw ohebiaeth mewn trefn amser fesul darn o waith ar gyfer pob prosiect gan gynnwys taflen monitro'r prosiect ar ddu blaen y ffeil.**

- **Pan gomisiynir unrhyw waith gan Ymgynghoriaeth Gwynedd dylid eu hysbysu pryd y disgwylir iddynt gwblhau'r gwaith a chyflwyno adroddiad.**

- **Dylid sefydlu protocol er mwyn derbyn adborth rheolaidd am waith cynllunio a rheoli'r prosiect sydd wedi ei gomisiynu yn Ymgynghoriaeth Gwynedd.**

- **Dylai'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd gynhyrchu taflen safonol i'w defnyddio i wahodd Ymgynghoriaeth Gwynedd i brisio am unrhyw ddarn o waith.**

# PROSIECT PONT BRIWET
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gan Cyngor Gwynedd drefniadau cadarn a digonol ar gyfer rheoli a chyflawni gwaith uwchraddio Pont Briwet.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd archwilio'r trefniadau priodol ar gyfer y broses tendro gan sicrhau fod cytundeb wedi ei sefydlu rhwng Cyngor Gwynedd a Network Rail a bod y gwariant ar y prosiect yn cael ei adolygu yn rheolaidd a bod cofrestr risg y cynllun yn cael ei ddiweddaru'n barhaus.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae'r rheolaethau a'r trefniadau sydd mewn lle yn sicrhau ymdriniaeth o'r risgiau sydd wedi eu hadnabod yn y Gofrestr Risg ar gyfer Prosiect Pont Briwet, neu maent yn y broses o dderbyn sylw yn dilyn Cyfarfod Cyn Contract a gynhaliwyd ar y 14 Chwefror 2013.

Penodwyd Rheolwr Prosiect yn Awst 2012 i reoli'r prosiect a deallir mai ef fydd yn ystyried ac yn cymeradwyo ac yn awdurdodi unrhyw waith ychwanegol yn unol â'r Pŵer Dirprwyedig sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu ar ei gyfer. Mae'r Rheolwr Prosiect yn atebol i'r Prif Beiriannydd, Trafnidiaeth a Gofal Stryd ac i Fwrdd y Prosiect. Dylid nodi bod Bwrdd Prosiect Pont Briwet yn cyfarfod yn chwarterol ond ni wnaethant gyfarfod ar 15 Ionawr 2013 oherwydd diffyg argaeledd aelodau i fynychu'r cyfarfod. Dengys Siart Cyfundrefnol Pont Briwet fod trefniadau wedi ei gwneud i benodi cynrychiolwyr fydd yn gyfrifol am ddatrys unrhyw anghydfod a all godi; hyd yma nid yw'r tîm yma wedi ei sefydlu. Disgwylir i'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd dderbyn enwau swyddogion oddi wrth Cyngor Gwynedd a Network Rail fydd ar gael i ddatrys unrhyw anghydfod a all godi.

### Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Prosiect Pont Briwet gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

**CYFARPAR GAN CYN-AELODAU**
**Strategol a Gwella**

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod cyn-aelodau'r Cyngor yn dychwelyd eitemau o gyfarpar TG megis gliniaduron a ffônau symudol yn ôl i berchenogaeth y Cyngor a bod cofnod digonol yn bodoli fel y gellir cyfrif am bob eitem o gyfarpar a bod rheolaeth yn bodoli dros feddalwedd a osodwyd ar gyfarpar a werthwyd i gyn-aelodau.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Gwirio'r rhestrau cyswllt perthnasol y Cyngor a'u dadansoddi er mwyn sicrhau bod y rhestr yn ddilys a chyfredol. Ymholi pa swyddogion sydd yn gyfrifol am gasglu cyfarpar TG, a threfn y broses casglu cyfarpar. Ymholi os oes gan y Cyngor bolisi/canllawiau ar gyfer cyfarpar TG sydd yn cael eu gwerthu i gyn-aelodau a gwirio bod trefniadau yn bodoli i sicrhau bod y meddalwedd sydd ar yr eitemau yn cydymffurfio â deddfwriaeth trwyddedu meddalwedd.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Nid oedd modd cynhyrchu tystiolaeth fod rheolaethau priodol ar gyfer y prosesau o gasglu cyfarpar TG yn ôl gan gyn-aelodau. Mynegwyd fod nifer o'r eitemau dan sylw wedi eu dychwelyd a wedi eu dyrannu i ddefnyddwyr eraill, ond nad oedd cofnodion ar gael yn dynodi pa unigolion (cyn-aelodau) wnaeth ddychwelyd pa eitemau, felly nid oes modd dilyn i fyny ar unrhyw achosion lle na fyddai hynny wedi digwydd.
Mae'n ymddangos mai un o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at hyn yw fod y cyfrifoldebau wedi trosglwyddo o'r Adran Democratiaeth a Chyfreithiol i'r Adran Strategol a Gwella yn dilyn yr etholiad diwethaf, a nad oedd cofnodion ar gyfer cyn-aelodau yn cael blaenoriaeth pryd hynny.
Gan nad oes modd datgan fod pob eitem wedi ei ddychwelwyd fel y disgwyliwyd, nid oes modd i'r archwilwyr sicrwydd yn y broses o gasglu'r cyfarpar TG gan gyn-aelodau'r Cyngor.
Nid oes risgiau diogelwch TG yn sgîl hyn gan fod cyfrifon y cyn-aelodau wedi eu hanablu.
O ran colledion ariannol, byddai angen ystyried prisiau prynu'r eitemau gwreiddiol ynghyd â prisiau eu hamnewid, byddai hyn yn berthnasol ar gyfer y tocynnau dilysu adnabyddiaeth (Citrix).
Noder fod y teclynnau unigol ar gyfer y cynllun presennol wedi eu cofnodi yn ffurfiol yn gysylltiedig ag unigolion gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, sydd am hwyluso proses o rhoi cyfrif am eu lleoliad. Mae cytundeb wedi ei baratoi a'i arwyddo gan pob Aelod sydd wedi derbyn y teclynnau yma sydd yn cynnwys cymal yn nodi fod yr eitemau yn eiddo i'r Cyngor ac y byddent yn cael eu dychwelyd ar ddiwedd y cyfnod. Mae'r cofnodion yma ym meddiant y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a'r Adran Strategol a Gwella.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y drefn o gasglu cyfarpar TG gan y cyn-aelodau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Pan ddaw'r adeg i gasglu nwyddau TG perthnasol â'r Cynllun TG blaenorol yn ôl gan Aelodau presennol, dylid ymgeisio i gydnabod pob dychweliad drwy ddefnyddio dulliau fel rhestr ticio swyddogol canolog i adnabod unigolion a/neu teclynnau unigol fel bod modd adolygu pa eitemau fyddai angen dilyn i fyny arnynt ar unrhyw achos.**

- **Dylid asesu os oes unrhyw ddull i adnabod pa eitemau TG sydd yn parhau i fod heb eu dychwelyd, a dilyn i fyny ar unrhyw achosion ble mae modd gwneud hynny.**

# CYFLOGAU A THREULIAU AELODAU
## Strategol a Gwella

Bwriad yr Archwiliad

Daeth newidiadau arwyddocaol i rym yn nhrefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd yn sgil Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Nid oedd y drefn lywodraethu flaenorol yn opsiwn dan y Mesur, ac felly bu nifer o newidiadau yn y drefn o dalu cyflogau a threuliau i aelodau wedi etholiad Mai 2012, gan gynnwys newidiadau mandadol o fewn strwythur swyddogion y Cyngor. Mae'n anorfod fod cyfnod o newidiadau arwyddocaol fel hyn yn cynyddu'r risg o gamgymeriadau, felly roedd yn briodol i archwilio mewnol gynnal adolygiad o'r trefniadau sydd bellach yn eu lle, er mwyn cynnig sicrwydd fod y trefniadau newydd yn gweithio'n effeithiol.

Cwmpas yr Archwiliad

Derbyniwyd tystiolaeth fod ffurflenni hawlio treuliau wedi eu harchwilio gan swyddog priodol a'u bod yn unol â'r rheoliadau. Gwiriwyd sampl o gyflogau er mwyn sicrhau bod y taliadau a wnaethpwyd yn cyfateb â dyletswyddau'r Aelodau a'r canllawiau priodol. Hefyd, gwiriwyd bod y ceisiadau a gyflwynwyd yn cael eu cymeradwyo gan swyddog awdurdodedig ar bob achlysur. Cadarnhawyd bod ceisiadau yn cael eu cyflwyno yn brydlon, ac ymholwyd sut y delir ag unrhyw gyflwyniadau anghyflawn neu hwyr.

Prif Ddarganfyddiadau

Cafodd canllawiau eu cyhoeddi yn 2012 ar gyfer yr Aelodau; maent yn egluro'r cyflogau a'r treuliau maent y gall Aelodau gallu hawlio amdanynt. Mae pob Aelod wedi cael hyfforddiant ar sut i gwblhau'r ffurflen yn ystod eu hwythnos anwytho yn dilyn eu penodiad ym mis Mai, ond mae'r canllawiau hefyd yn rhoi esboniad.

Nid y Cyngor sydd yn gyfrifol am osod cyflogau a chyfraddau costau teithio a chynhaliaeth yr Aelodau ond y 'Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol'. Dim ond gweithredu mae'r Cyngor.

Mae swyddog penodol yn gwirio'r holl geisiadau gan sicrhau bod y manylion priodol yn cael eu cofnodi yn ogystal â bod tystiolaeth a derbynneb TAW wedi eu cyflwyno. Hefyd mae'n gwirio'r ceisiadau yn erbyn cofrestr presenoldeb cyfarfodydd a phwyllgorau'r Aelodau. Ar y cyfan, roedd y taliadau yn gywir - dim ond ambell fân gamgymeriad a ddarganfuwyd yn y sampl; nid oedd y rhain yn cael effaith faterol ar gyfanswm y taliadau.

Gwelwyd sawl achos o aelodau yn cyflwyno sawl mis o hawliadau gyda'i gilydd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cyflogau a Threuliau Aelodau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid atgoffa'r Cynghorwyr bod angen cyflwyno ceisiadau yn fisol.**

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 EBRILL 2013** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2012/13** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETH GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel "Pennaeth Archwilio Mewnol" Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig, mae gofyn arnaf i ddarparu sicrwydd i'r awdurdod ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yn yr awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

1.2 Wrth asesu'r lefel sicrwydd i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2012/13 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

## 2. SICRWYDD CYFFREDINOL

**2.1 Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2012/13, yn fy marn i mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol. Er hyn, mae angen datblygu ymhellach y prosesau ffurfiol o safbwynt cofnodi risgiau yn unedau busnes y Cyngor.**

### 2.2 Ystyriaethau

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Ble canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

## 3. GWAITH ARCHWILIO

### Cynllun Archwilio

3.1 Roedd 100 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2012/13. Cafodd 95 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2013, sy'n cynrychioli **95.00%** o'r cynllun. At bwrpasau'r dangosydd yma caiff aseiniad ei gyfrif fel bod wedi ei gwblhau lle mae adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu, os nad oes adroddiad/memorandwm, yr aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno.

3.2 Mae'r perfformiad yma yn cymharu â perfformiad 2011/12 o 99.12%, yn erbyn targed o 95%.

3.3 Yr archwiliadau o gynllun 2012/13 lle na gafodd yr adroddiad ei ryddhau'n derfynol erbyn 31 Mawrth 2013 oedd:

- ***Llwyddo'n Lleol.*** Y gwaith maes yn parhau i fod ar y gweill ar 31 Mawrth. Bydd yn cael ei gwblhau mor fuan â phosib yn 2013/14.
- ***Rheoli cyllidebau cynnal adeiladau Ysgolion Uwchradd - gwerth am arian.*** Rhyddhawyd yr adroddiad drafft ar 20 Mawrth 2013. Nid oedd amser yn caniatáu i swyddogion yr Adran Gofal Cwsmer a'r Adran Addysg i ddarparu sylwadau cyn 31 Mawrth.
- ***Ysgolion Cynradd – Trefn diswyddo oherwydd gormodedd.*** Rhyddhawyd yr adroddiad drafft ar 18 Mawrth 2013. Oherwydd ymrwymiadau eraill a gwyliau'r Pasg, nid oedd modd i swyddogion allweddol ymateb i'r drafft cyn 31 Mawrth.
- ***Ysgolion Cynradd – Lwfansau Athrawon ac Amodau Gwaith Penaethiaid.*** Nid oedd gwaith wedi dechrau ar yr archwiliad yma. Bydd yn cael ei gynnal yn ystod chwarter cyntaf 2013/14.
- ***Gwireddu Prosiectau Arbed.*** Rhyddhawyd yr adroddiad drafft ar 25 Mawrth 2013. Nid oedd amser yn caniatáu i swyddogion yr Adran Strategol a Gwella ddarparu sylwadau cyn 31 Mawrth.

3.4 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2012/13 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

3.5 Ble'n berthnasol, caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio er mwyn rhoi barn archwilio gyffredinol ar amgylchedd reolaeth y system neu sefydliad benodol dan sylw.

| | |
|---|---|
| Barn "A" | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. |
| Barn "B" | Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. |
| Barn "C" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. |
| Barn "CH" | Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn. |

3.6 Cafodd pob argymhelliad a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol, ac i sefydlu ymarfer da.

3.7 O'r 95 aseiniad yng nghynllun archwilio 2012/13 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y categorïau barn canlynol:

| **Categori Barn** | **Nifer archwiliadau** |
|---|---|
| A | 18 |
| B | 45 |
| C | 13 |
| CH | 0 |
| Dim Categori | 19 |
| **Cyfanswm** | **95** |

3.8 O'r adroddiadau perthnasol i gynllun archwilio 2012/13 a dderbyniodd gategori Barn 'A' i 'CH', derbyniodd 82.9% ohonynt farn 'A' neu 'B', sydd ychydig yn uwch na'r ffigwr cyfatebol o 81.5% yn 2011/12.

3.9 Ni dderbyniodd unrhyw archwiliad farn CH.

3.10 Caiff crynodeb gweithredol adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleient a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori barn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn crynodeb byr a ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol. Yr unig eithriad i hyn gyda gwaith o'r cynllun yw gwaith sy'n cael ei gynnal yn barhaus trwy'r flwyddyn, megis adolygiadau o gyfrifon terfynol contractau.

3.11 Mae'r tabl isod yn dangos pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2012/13. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| **Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad / Memorandwm Terfynol** | **Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio** |
|---|---|
| 1 Ebrill 2012 – 31 Gorffennaf 2012 | 27 Medi 2012 |
| 1 Awst 2012 – 30 Medi 2012 | 22 Tachwedd 2012 |
| 1 Hydref 2012 – 31 Rhagfyr 2012 | 29 Ionawr 2013 |
| 1 Ionawr 2013 – 31 Mawrth 2013 | 18 Ebrill 2013 |

### Addasiadau i'r Cynllun

3.12 Adroddwyd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

### Gwaith Dilyniant

3.13 Rhyddhawyd memorandwm terfynol ar gyfer 9 o archwiliadau dilyniant yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013. Un o'r archwiliadau yma yn unig a dderbyniodd farn "Anfoddhaol" – derbyniodd y gweddill farn "Derbyniol" neu "Rhagorol". Mae hyn yn awgrymu fod trefniadau cadarn o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

## 4. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

### Staffio a chymwysterau

4.1 Mae gan 3 o swyddogion Archwilio Mewnol gymhwyster CIPFA llawn, sef yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg a dau arweinydd tîm, ac mae gan yr Uwch Archwiliwr (TG) gymhwyster archwilio cyfrifiaduron ISACA.

### Y defnydd a wneir o adnoddau staff

4.2 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos lleihad yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd, o **1,821** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012 i **1,571** diwrnod am yr un cyfnod yn 2011/12, lleihad o 250 diwrnod. Y prif reswm am hyn oedd tair swydd gwag ar ddechrau'r cyfnod, dau oherwydd secondiadau i ran arall o'r Adran Gyllid, a'r llall oherwydd ymddiswyddiad archwiliwr er mwyn derbyn swydd tebyg mewn awdurdod lleol arall.

- Roedd un o'r swyddi gwag hyn wedi cael ei gynllunio amdano, ac felly roedd disgwyliad y byddai nifer y ddyddiau archwiliad a gyflenwid i Cyngor Gwynedd yn llai yn ystod 2012/13 nag yr oedd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Y targed ar gyfer dyddiau a ddarparwyd i Cyngor Gwynedd oedd 1,118, ond oherwydd llwyddiant i recriwtio dros dro er mwyn cyflawni'r cynllun roedd y gwir berfformiad yn rhagori ar y targed, er yn is na'r flwyddyn flaenorol.

- Er gwaethaf hyn, bu modd cwrdd â'r targed o gyflawni 95% o'r cynllun. Roedd lleihad sylweddol yn nifer y dyddiau y bu'n rhaid eu defnyddio yn cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol (i lawr o **133** yn 2011/12 i **39** yn 2012/13) yn gymorth yn hynny o beth.

- Bu peth cynnydd yn nifer y dyddiau a ddefnyddiwyd i gyflenwi archwiliadau i'n cwsmeriaid allanol.

- O safbwynt hyfforddiant proffesiynol, roedd un Archwiliwr yn astudio am gymhwyster ACCA.

- Bu lleihad bychan yn y nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch, o **62** yn 2011/12 i **55** yn 2012/13.

## 5. PERFFORMIAD ARCHWILIO

5.1 Roedd canlyniadau mesuryddion perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2012/13 fel a ganlyn:

| **Disgrifiad mesurydd** | **Perfformiad 2011/12** | **Uchelgais 2012/13** | **Canlyniadau 2012/13** |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau | 99.12% | 95% | **95%** |
| Dyddiau cynhyrchiol fel % o'r cyfanswm sydd ar gael (heb gynnwys gwyliau) | 73.0% | 70.9% | **70.9%** |
| Nifer y Safonau Archwilio ble ceir cydymffurfiaeth llawn yn ôl adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth | 10 | 9 | **10** |
| Gwir ddyddiau a ddarparwyd i Cyngor Gwynedd | 1,816 | 1,118 | **1,571** |
| Gwir ddyddiau a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol | 74 | 85 | **137** |
| Cyfran o’r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn “B” neu well (mesur corfforaethol) | 81.48% | 70% | **82.9%** |
| Cyfran o’r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn “Derbyniol” neu well (mesur corfforaethol) | 92.86% | 80% | **88.9%** |

5.2 Llwyddwyd i gwrdd â’r targedau i gyd.

## 6. CYDYMFFURFIAETH Â’R CÔD YMARFER

6.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur Archwilio Mewnol yn erbyn gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol 2006. Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru yng Ngorffennaf 2012 fod gan Cyngor Gwynedd wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol sy’n cydymffurfio ar y cyfan â safonau y Côd Ymarfer.

6.2 Roedd adroddiad y archwiliwr allanol yn nodi fod Archwilio Mewnol wedi cyrraedd y safonau canlynol:

- Cwmpas yr Archwiliad Mewnol
- Moeseg i Archwilwyr Mewnol
- Pwyllgor Archwilio
- Cydberthnasau
- Staffio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus
- Strategaeth Archwilio a Chynllunio
- Cyflawni gwaith archwilio
- Gofal Proffesiynol Priodol
- Cyflwyno Adroddiadau
- Perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd

Adroddwyd mai yn rhannol yr oedd Archwilio Mewnol yn cyrraedd y safon Annibyniaeth, oherwydd cyfrifoldebau eraill yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn ychwanegol i Archwilio Mewnol. Mae hyn yn fater sydd wedi ei adrodd i a’i nodi gan y Pwyllgor Archwilio ers sawl blwyddyn.

6.3 Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion.

## 7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2013/14

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2013/14 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2013. Mae'r cynllun diweddaraf wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

7.2 Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i rym ar 1 Ebrill 2013, gan ddisodli'r Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Nid oes disgwyl newidiadau arwyddocaol i ymarfer gwaith Archwilio Mewnol yn sgil hyn, ond bydd y gwasanaeth yn parhau i asesu ei gydymffurfiaeth gyda'r safonau newydd yn ystod y flwyddyn.

7.3 Mesuryddion perfformiad Archwilio Mewnol ar gyfer 2012/13 yw:

| **Disgrifiad mesurydd** | **Uchelgais 2013/14** |
|---|---|
| Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau | 95% |
| Dyddiau cynhyrchiol fel % o'r cyfanswm sydd ar gael (heb gynnwys gwyliau) | 74.3% |
| Nifer y Safonau Archwilio ble ceir cydymffurfiaeth llawn yn ôl adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth | 10 |
| Gwir ddyddiau a ddarparwyd i Cyngor Gwynedd | 1,650 |
| Gwir ddyddiau a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol | 80 |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn cyrraedd barn "B" neu well (mesur corfforaethol) | 70% |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 90% |

## 8. ARGYMHELLIAD

8.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig am y flwyddyn ariannol 2012/13.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2012/13

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Trefniadau Ymdrin â Gohebiaeth | **C** | 29 Ionawr 2013 |
| Ansawdd Gohebiaeth | **A** | 18 Ebrill 2013 |
| Cynllunio'r Gweithlu | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| Gwiriadau DBS Staff | **C** | 18 Ebrill 2013 |
| Swyddogaethau Rheolwyr Safle | **B** | 29 Ionawr 2013 |
| Cyfrannu at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | **Dim Categori** | 27 Medi 2012 |
| Cynnal Asesiadau Ariannol ar Gwmnïoedd - Fframwaith ACGCC PQQ2 | **Dim Categori** | 27 Medi 2012 |
| Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw | **Dim Categori** | |
| Telerau Contractau - Gwiriadau DBS | **C** | 18 Ebrill 2013 |
| Grant - Canolfan Monitro Arfordir Cymru | **Dim Categori** | 22 Tachwedd 2012 |
| Grant - Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid | **Dim Categori** | 22 Tachwedd 2012 |
| Cofnodi a Rheoli Gwyliau | **C** | 29 Ionawr 2013 |
| Gweinyddu Anfonebau cyn eu pasio i'r Uned Taliadau | **C** | 29 Ionawr 2013 |
| Cardiau Credyd Barclaycard | **B** | 22 Tachwedd 2012 |
| NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **Dim Categori** | |
| Recriwtio - Profion Hunaniaeth | **C** | 27 Medi 2012 |
| Cytundeb Canlyniadau | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| Grant Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru | **A** | 27 Medi 2012 |
| Grant Blas am Oes | **B** | 22 Tachwedd 2012 |
| Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **B** | 27 Medi 2012 |
| Grant Gofal Plant Ysgolion Ffocws Cymunedol | **B** | 22 Tachwedd 2012 |
| Grant Refeniw 2011-12 y Cyfnod Sylfaen | **B** | 27 Medi 2012 |
| Grant Addysg ôl-16 | **Dim Categori** | 29 Ionawr 2013 |
| Gwasanaeth Llefrith i Ysgolion | **B** | 27 Medi 2012 |
| Llywodraeth Cymru - Trefniadau Prosesu Cyllid Myfyrwyr | **Dim Categori** | 18 Ebrill 2013 |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Penodi Ymgynghorwyr Rheoli, Adran Addysg | **B** | 22 Tachwedd 2012 |
| **Ysgolion** | | |
| Penodiadau Llanw | **B** | 22 Tachwedd 2012 |
| Ysgolion Cynradd - Diogelwch Gwybodaeth | **B** | 29 Ionawr 2013 |
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Uned Cefnogol** | | |
| Gweinyddu Benthyciadau Car | **B** | 22 Tachwedd 2012 |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | |
| Asiantaeth Cefnffyrdd - anfonebau rhwng cynghorau | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| **CYLLID** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Gwaith Ymgynghorol - Safle Mewnrwyd yr Adran Gyllid | **Dim Categori** | |
| **Archwilio a Risg** | | |
| Rheoli Risg Corfforaethol | **Dim Categori** | 18 Ebrill 2013 |
| **Ariannol** | | |
| Cysoni Banc y System Incwm | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 22 Tachwedd 2012 |
| System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| **Cyfrifeg** | | |
| Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 27 Medi 2012 |
| Prif System Gyfrifo - Prosiect Uwchraddio | **A** | 29 Ionawr 2013 |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| Cyflogau - rhediadau BACS | **A** | 27 Medi 2012 |
| Adroddiadau Eithriad y System Gyflogau | **B** | 27 Medi 2012 |
| Defnydd Honoraria | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 18 Ebrill 2013 |
| System Gyflogau - Paramedrau ac Algorithmau | **A** | 22 Tachwedd 2012 |
| System Gyflogau - Didyniadau Treth ac Yswiriant Cenedlaethol | **A** | 22 Tachwedd 2012 |
| **Refeniw** | | |
| System paye.net | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| Derbyn incwm mewn swyddfeydd | **B** | 29 Ionawr 2013 |
| Budd-daliadau Tai Dewisol | **A** | 18 Ebrill 2013 |
| System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 18 Ebrill 2013 |
| System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **A** | 18 Ebrill 2013 |
| Rheolaethau TG Systemau Treth Cyngor, Budd-daliadau a Treth Di-annedd (Dilyniant i archwiliad SAC) | **Dim Categori** | 22 Tachwedd 2012 |
| System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | **A** | 27 Medi 2012 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| Rheoli Contractau - Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog | **B** | 29 Ionawr 2013 |
| Cynllun Genesis Cymru 2 | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| Prosiect Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc | **A** | 18 Ebrill 2013 |
| Cynllun Taith i Waith | **B** | 27 Medi 2012 |
| Cymunedau'n Gyntaf - Trefniadau cau i lawr | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| Cymunedau'n Gyntaf - Strategaeth Ymadael | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| **Ieuenctid** | | |
| Clybiau Ieuenctid | **B** | 29 Ionawr 2013 |
| **Prosiectau Sylweddol** | | |
| Rheoli Contractau - Academi Hwylio | **Dim Categori** | 18 Ebrill 2013 |
| **Sgiliau a mentergarwch** | | |
| Cynllun "Potensial" | **Dim Categori** | 27 Medi 2012 |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw | **B** | 27 Medi 2012 |
| **GOFAL CWSMER** | | |
| **Cynllunio Argyfwng** | | |
| Polisi Tywydd Garw | **Dim Categori** | 29 Ionawr 2013 |
| **Glanhau a Gofalwyr Adeiladau** | | |
| Goruchwyliaeth Rheolwyr ar Ddyletswydd | **B** | 22 Tachwedd 2012 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| Gwerthusiad o'r Peilot Cyfryngau Cymdeithasol | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| Rheoli Newid | **C** | 18 Ebrill 2013 |
| Cleiant Tenau | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | **C** | 29 Ionawr 2013 |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| Prosesu Data Cyflenwyr Ynni | **C** | 18 Ebrill 2013 |
| Rheoli Contractau - Ysgol Ardal Bro Dysynni | **A** | 18 Ebrill 2013 |
| Trefniadau Gwarchod rhag Legionella | **B** | 22 Tachwedd 2012 |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Tai Gofal Ychwanegol | **Dim Categori** | 22 Tachwedd 2012 |
| Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd | **C** | 29 Ionawr 2013 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwireddu Arbedion | **B** | 29 Ionawr 2013 |
| Grant Pecyn Camau Cyntaf | **Dim Categori** | 27 Medi 2012 |
| Safon 7 y Fframwaith Comisiynu | **Dim Categori** | |
| Uned Rheoli Asedau Clientau - Bancio Rhyngrwyd | **A** | 22 Tachwedd 2012 |
| Cyllid Cleientau | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| **Busnes** | | |
| Trefniadau Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| Gwasanaeth Broceriaeth | **B** | 22 Tachwedd 2012 |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| Llety i Bobl Ifanc yn gadael gofal | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| Tai gyda Chefnogaeth - Cyfrifon Imprest a Cyfrif y ty | **B** | 27 Medi 2012 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| Gweithdai - Goruchwyliaeth Iechyd a Diogelwch | **B** | 22 Tachwedd 2012 |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | |
| Glanhau Strydoedd | **B** | 29 Ionawr 2013 |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| Gweithfeydd - Cytundeb A55 | **A** | 29 Ionawr 2013 |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| Cynllun GwyriAD | **B** | 29 Ionawr 2013 |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| Uned Trwyddedu | **C** | 27 Medi 2012 |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| Grant - Gwasanaeth Trafnidiaeth Lleol | **Dim Categori** | 22 Tachwedd 2012 |
| Prosiect Pont Briwet | **A** | 18 Ebrill 2013 |
| Partneriaeth TraCC | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| Cludiant Cymunedol | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Democratiaeth** | | |
| Cyfarpar gan Cyn-aelodau | **C** | 18 Ebrill 2013 |

| Enw'r Archwiliad | Categori Barn | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|
| Trefniadau TG i aelodau | **C** | 29 Ionawr 2013 |
| Cyflogau a Threuliau Aelodau | **B** | 18 Ebrill 2013 |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | |
| Cymhariaeth Cyfrifon Terfynol a Tendrau Gwreiddiol | **Dim Categori** | 27 Medi 2012 |
| Penodi Contractwyr Peirianyddol | **B** | 22 Tachwedd 2012 |
| Pontydd | **B** | 22 Tachwedd 2012 |

**Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob categori barn, Cynllun 2012/13:**

| | Nifer archwiliadau |
|---|---|
| A | **18** |
| B | **45** |
| C | **13** |
| Dim Categori | **19** |
| **Cyfanswm** | **95** |

## Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:

| 2011/12 | | 2012/13 |
|---|---|---|
| **3,060** | **Cyfanswm Dyddiau** | **2,814** |
| 467 | Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol) | 404 |
| **2,593** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **2,410** |
| | Llai: | |
| 36 | Gwyliau Arbennig | 22 |
| 62 | Salwch | 55 |
| 35 | Hyfforddiant Proffesiynol | 22 |
| 35 | Hyfforddiant Swydd | 94 |
| **2,425** | **Dyddiau ar gael** | **2,217** |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| 13 | Adolygu Perfformiad (Gwerthuso) | 15 |
| 15 | Apwyntiadau Meddygol | 6 |
| 39 | Cofnodi a Rheoli Amser | 34 |
| 108 | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | 90 |
| 7 | Cyfarfodydd-Gwaith ar y cyd a SAC | 2 |
| 5 | Cyflwyno Hyfforddiant | 4 |
| 0 | Cynnal Cyfweliadau | 2 |
| 61 | Gwaith Cefndirol | 55 |
| 53 | Gweinyddiaeth ayb. | 62 |
| 23 | Pwyllgor Archwilio | 21 |
| 134 | Rheolaeth Archwilio Mewnol | 137 |
| 5 | Rheoli Absenoldebau | 5 |
| 15 | Tasgau Cydweithio Gogledd Cymru | 17 |
| 5 | Trafferthion TG | 6 |
| 0 | Uwchraddio Galileo | 10 |
| 1 | Ymarferiadau Tân | 0 |
| 51 | Llai: gwaith rheolaethol arall (Uwch Reolwr) | 43 |
| **1,890** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **1,708** |
| 40 | Gwaith APCE | 57 |
| 29 | Gwaith CTE | 80 |
| **1,821** | **Cyfanswm dyddiau cynhychiol, Cyngor Gwynedd** | **1,571** |

## Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:

| 2011/12 | Math o waith | 2012/13 |
|---|---|---|
| 1,523 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 1,424 |
| 5 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 1 |
| 38 | Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol | 20 |
| 60 | Cynghori | 39 |
| 62 | Gwaith dilyniant | 48 |
| 133 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 39 |
| **1,821** | | **1,571** |

# Cynllun Archwilio Mewnol 2013/14

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| | Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | **15.00** |
| | Cefnogi Adolygiadau "Systems Thinking" | **15.00** |
| | Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch | **25.00** |
| | Prosiect Strategol Gwella Iechyd | **20.00** |
| | Y Drefn Gwynion Corfforaethol | **15.00** |
| | Côd Llywodraethu Lleol | **10.00** |
| | Llywodraethu Corfforaethol - Trefniadau Dirprwyo | **20.00** |
| | Polisi Buddiannau Swyddogion | **10.00** |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | **40.00** |
| | Diogelu Data - Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau | **10.00** |
| | Rheolaeth Gyllidebol | **25.00** |
| | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **30.00** |
| | Gwirio Dangosyddion Perfformiad | **25.00** |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **7.00** |
| | Grant Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion | **7.00** |
| | Grant Gofal Plant Ysgolion Ffocws Cymunedol | **10.00** |
| | Grant Amddifadedd Disgyblion | **10.00** |
| | Grant Addysg ôl-16 | **1.00** |
| | Asesiadau Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion | **15.00** |
| | Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr | **20.00** |
| **GwE** | | |
| | GwE | **25.00** |
| **Ysgolion** | | |
| | Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion | **10.00** |
| | Trefniadau Lesu Mewn Ysgolion | **10.00** |
| | Ysgolion Uwchradd - Rheolaeth Gyllidebol | **20.00** |
| | Ysgolion Uwchradd - Diogelwch Gwybodaeth | **20.00** |
| | Ysgolion Cynradd - Lwfansau Athrawon ac Amodau Gwaith Penaethiaid | **20.00** |
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Hyfforddiant** | | |
| | Defnydd o Cetis - CALMS | **10.00** |
| **CYLLID** | | |
| **Ariannol** | | |

| | | |
|---|---|---|
| | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | System eGaffael | **20.00** |
| | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| **Cyfrifeg** | | |
| | Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | **10.00** |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | Cyflogau - Tâl Mamolaeth | **10.00** |
| | Cyflogau - Goramser | **10.00** |
| | Cyflogau - Blaendaliadau | **6.00** |
| | Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **15.00** |
| | Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr | **25.00** |
| **Refeniw** | | |
| | Gwiriadau Budd-dal ar Sail Risg | **20.00** |
| | System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | Grant Gwisg Ysgol | **10.00** |
| | Treth Cyngor - Disgowntau ac Eithriadau | **20.00** |
| | System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | Ad-daliadau Treth Di-Annedd | **10.00** |
| | System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol | **10.00** |

**DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL**

| | | |
|---|---|---|
| **Cofrestru** | | |
| | Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | **20.00** |
| **Swyddog Monitro** | | |
| | Rhoddion a Lletygarwch Aelodau | **20.00** |

**ECONOMI A CHYMUNED**

| | | |
|---|---|---|
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| | Swyddogion Adfywio Bro | **10.00** |
| | Cymunedau'n Gyntaf - Estyniad i'r Hen Gynllun | **10.00** |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | |
| | Neuadd Buddug, Y Bala | **4.00** |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| | Porthladdoedd | **20.00** |
| | Parciau Gwledig | **15.00** |
| **Prosiectau Sylweddol** | | |
| | Rheoli Contractau - Academi Hwylio | **15.00** |
| | Trefniadau Sefydlu yr Academi Hwylio | **10.00** |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| | Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw | **5.00** |
| | Prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | **12.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer** | | |
| | Prosiect "Ein Treftadaeth" | **22.00** |
| | Canolfannau Croeso | **15.00** |
| **GOFAL CWSMER** | | |
| **Cynllunio Argyfwng** | | |
| | Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes | **15.00** |
| **Cyswllt Cwsmer** | | |
| | Siopau Un Stop | **10.00** |
| **Llyfrgelloedd** | | |
| | Gwynedd Ni | **10.00** |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| | Logio a Monitro | **8.00** |
| | Cydgyfeiriant Rhwydwaith | **20.00** |
| | Diogelwch Glinfyrddau | **10.00** |
| | Trwyddedau Meddalwedd (Corfforaethol) | **15.00** |
| | Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion) | **15.00** |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| | Cynllun Rheoli Asedau | **30.00** |
| | Eiddo'r Cyngor - Offer Ymladd Tân | **10.00** |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Trydydd Sector - Grantiau, Comisiynu a Chontractau | **25.00** |
| | Costau Teithio Gweithwyr Cefnogol | **15.00** |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth | **20.00** |
| | "Canlyniadau'n Cyfrif" | **7.00** |
| **Busnes** | | |
| | Prosiect Cydweithio Rhanbarthol – Canolbwynt Comisiynu Gofal | **20.00** |
| **Cefnogi Pobl** | | |
| | Cefnogi Pobl | **20.00** |
| **Digartrefedd a Thai Cefnogol** | | |
| | Cynllun Lesu Tai Sector Breifat | **15.00** |
| **Hamdden** | | |
| | Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden | **20.00** |
| | Grantiau Cyngor Chwaraeon | **15.00** |
| **Oedolion** | | |
| | Taliadau Uniongyrchol | **15.00** |
| | Gweithredu'r Cynllun Galluogi | **15.00** |
| | Teleofal | **20.00** |
| | Cynlluniau Galluogi | **20.00** |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | **10.00** |
| | Plant - Lwfansau Ôl-ofal | **15.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **Tai Sector Breifat** | | |
| | Pobl Hŷn - Anabl - Addasiadau i Gartrefi | **20.00** |
| | Prosiect Tai Gwag nôl i ddefnydd | **12.00** |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Fflyd** | | |
| | Rheolaeth Fflyd - Cytundeb Cydrannau NWPP | **10.00** |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| | Gweithiau Adenilladwy | **20.00** |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| | Gangiau Cymunedol | **10.00** |
| | Gwastraff Masnachol | **30.00** |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Amgylchedd** | | |
| | Taliadau i Gwmnioedd Tacsi | **20.00** |
| **Cynllunio** | | |
| | Y Gwasanaeth Cynllunio | **25.00** |
| | Rheolaeth Datblygu - Gorfodaeth | **15.00** |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| | Safonau Masnach | **20.00** |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| | Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | **10.00** |
| | Tocynau Teithio Rhad - Taliadau i gwmnïau bysiau | **25.00** |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | |
| | Strategaeth Caffael | **25.00** |
| **Cyfeiriad Strategol** | | |
| | Cronfa SMAP | **15.00** |
| | Diogelwch Cymunedol | **15.00** |
| | Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc | **15.00** |
| | Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles | **20.00** |
| **Democratiaeth** | | |
| | Hyfforddi Aelodau | **20.00** |
| | Safon Gwynedd - Papurau Eithriedig a Chyfrinachedd | **15.00** |
| **Perfformiad a Chraffu** | | |
| | Trefniadau Rheoli Prosiectau | **26.00** |
| | Prosiect "Channel Migration" | **20.00** |
| | Rheolaeth Risg Prosiectau Rhaglen Plant a Phobl Ifanc | **15.00** |
| | Prosiect "Total Place" | **15.00** |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | |
| | Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd | **20.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| | | **1,682.00** |

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

# Cyngor Gwynedd

**Blwyddyn archwilio:** 2012-13

**Cyhoeddwyd:** Mawrth 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 212A2013

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

I'r graddau a ganiateir yn ôl y gyfraith, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golledion yr aed iddynt gan unrhyw aelod, swyddog neu gyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti o ganlyniad i ddefnyddio'r ddogfen hon.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol | |
| Rolau a chyfrifoldebau | 4 |
| Y dull archwilio | 5 |
| Cyflwyno adroddiadau | 8 |
| Ffi archwilio | 9 |
| Atodiadau | |
| Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio | 10 |
| Tîm yr archwiliad ariannol | 11 |

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

## Rolau a chyfrifoldebau

1. Paratowyd yr Amlinelliad hwn o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i Gyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2012-13.
2. O dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am benodi archwilwyr allanol (Archwilwyr Penodedig) ar gyfer cyrff llywodraeth leol.
3. Fel Archwilydd Penodedig, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried ac ardystio cyfrifon y Cyngor. Yn unol â safonau proffesiynol sy'n gymwys yn rhinwedd y Cod Ymarfer Archwilio a bennwyd o dan y ddeddf, mae hyn yn cynnwys rhoi barn ar b'un a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn. Mae'r ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi fodloni fy hun o ran y pethau hyn:
   - bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â rheoliadau o dan adran 39 o'r ddeddf (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005);
   - bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt;
   - bod arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon; a
   - bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
4. Mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
5. Nid yw'r archwiliad yn golygu nad oes angen i'r Cyngor gyflawni'r cyfrifoldebau canlynol:
   - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
   - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
   - paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
   - sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
6. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol y Cyngor a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon.
7. Nodir elfennau allweddol yr archwiliad yn Atodiad 1.

**8.** Caiff dogfen ar wahân, *sef Rhaglen Reoleiddio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Archwilio Perfformiad*, ei chyhoeddi yn nodi'r gwaith sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**9.** Mae Amlinelliad arall o'r Archwiliad Ariannol wedi cael ei gyhoeddi mewn perthynas â'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2012-13.

**10.** Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio hawliadau a ffurflenni grant penodol. Yr Archwilydd Penodedig, gan weithredu fel asiant ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n cyflawni'r gwaith archwilio mewn perthynas â'r hawliadau a'r ffurflenni hynny.

# Y dull archwilio

## Y tîm archwilio

**11.** Rhoddir gwybodaeth am dîm yr archwiliad ariannol yn Atodiad 2.

## Archwiliad o ddatganiadau ariannol

**12.** Deallaf y caiff rheolaethau mewnol eu cynllunio, eu gweithredu a'u cynnal gan y Cyngor i fynd i'r afael â risgiau busnes a nodir sy'n bygwth y gallu i gyflawni amcanion corff a archwilir o ran:

- dibynadwyedd ei adroddiadau ariannol;
- effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei weithrediadau; a
- ei gydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau cymwys.

**13.** Byddaf yn:

- asesu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol lefel uchel a rheolaethau mewnol lefel systemau allweddol i atal a chanfod gwallau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu;
- asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol;
- adolygu gwaith a gyflawnwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a cheisio dibynnu arno,
  fel sy'n briodol; a
- datblygu gweithdrefnau cadarn i ymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â chamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu.

**14.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig yn gywir ac yn deg, ond mabwysiadaf y cysyniad o berthnasedd. Felly, wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rwyf yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, sef y camddatganiadau hynny a allai gamarwain unigolyn sy'n darllen y cyfrifon.

**15.** Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

## Risgiau o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu

**16.** Mae Arddangosyn 1 yn rhoi gwybodaeth am y prif risgiau gweithredol ac ariannol a wynebir gan y Cyngor a allai effeithio ar fy archwiliad. Dyma'r prif risgiau a nodais yn ystod y broses gychwynnol o gynllunio'r archwiliad, yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â hwy. Mae'n bosibl y bydd angen i mi newid y cynllun archwilio os bydd unrhyw risgiau newydd yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun archwilio heb eu trafod yn gyntaf â swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Arddangosyn 1: Crynodeb o'r prif risgiau archwilio a'r ymatebion arfaethedig

| Risgiau | Camau gweithredu arfaethedig |
| --- | --- |
| **Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli** | |
| **Cyffredinol**<br>Risg nad yw rheolaethau rheoli ariannol a llywodraethu yn ddigonol, neu nad ydynt yn gweithredu fel y bwriadwyd. Yn benodol, mae'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol o fewn yr hinsawdd economaidd heriol ehangach. | Byddwn yn asesu cadernid trefniadau'r Cyngor ar gyfer y canlynol:<br>• sicrhau rheolaeth gyllidebol a chynllunio ariannol effeithiol; a<br>• darparu gwasanaeth archwilio mewnol sy'n cyrraedd y safonau proffesiynol a bennwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). |
| **Risgiau sy'n ymwneud â systemau ariannol** | |
| **Cyffredinol**<br>Risg nad yw rheolaethau ariannol lefel uchel y Cyngor wedi'u cynllunio nac yn gweithredu yn effeithiol i atal a nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. | Byddwn yn adolygu cynllun ac yn profi gweithrediad rheolaethau lefel uchel yn:<br>• y brif system gyfrifyddu;<br>• y system rheoli cyllidebol; a<br>• y broses o baratoi cyfrifon. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon** | |
| **Cyffredinol**<br>Risg y gall newidiadau i'r datganiadau ariannol i gydymffurfio â Chod Ymarfer Cyfrifyddu Llywodraeth Leol 2012-13 (y Cod), fod wedi'u cwblhau'n anghywir. | Byddwn yn adolygu'r datganiadau ariannol drafft er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r Cod. |

| Risgiau | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Materion yn codi o'm harchwiliadau blaenorol**<br>Mae risgiau'n codi o'm harchwiliadau blaenorol lle roedd angen gwneud gwelliannau. Yn arbennig, yr angen i :<br>• sicrhau bod y cysoniad banc wedi'i baratoi'n briodol;<br>• sicrhau bod balansau credydwyr wedi'u dosbarthu'n unol â'r Cod Ymarfer; a<br>• sicrhau bod pob aelod o'r Cyngor yn cyflwyno manylion am fuddiannau parti cysylltiedig er mwyn sicrhau bod nodyn datgelu'r parti cysylltiedig wedi'i gwblhau. | Byddwn yn:<br>• asesu'r rheolaethau sydd ar waith yn ystod 2012-13 ac yn cynnal profion archwilio i ystyried eu cynllun, eu bodolaeth a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw; a<br>• cynnal gwaith dilynol mewn perthynas ag argymhellion sy'n deillio o'n harchwiliadau blaenorol. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol** | |
| **Cyffredinol**<br>Mae perygl y caiff y datganiadau ariannol eu cam-ddatgan yn sylweddol oherwydd gwall neu am fod trafodion, balansau a datgeliadau wedi eu hepgor. | Byddwn yn cynnal rhaglen o brofion archwilio er mwyn mynd i'r afael â risgiau a nodwyd fel rhan o'n gwaith cynllunio ac adolygu'r datganiadau ariannol drafft. |
| **Cyfrif am rwymedigaethau sy'n ymwneud â Safleoedd Tirlenwi**<br>Fel y nodwyd gennym yn flaenorol, pan fydd cyngor yn gweithredu safleoedd tirlenwi y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt, neu pan fydd wedi gwneud hynny yn y gorffennol, mae dyletswydd arno i adfer y safle ac i gynnal gwaith ôl-ofal a monitro priodol am sawl degawd ar ôl cau'r safle. O ganlyniad, bydd rhwymedigaethau ariannol cysylltiedig a rhaid cydnabod y rhwymedigaethau hyn yn natganiadau ariannol y Cyngor.<br>Mae risg na wneir darpariaeth gyfrifyddu ddigonol yn y cyfrifon ar gyfer y rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r safleoedd tirlenwi hyn. | Byddwn yn meithrin dealltwriaeth o gyfrifoldebau'r Cyngor o ran safleoedd tirlenwi ac yn ystyried p'un a yw'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth gyfrifyddu briodol yn ei ddatganiadau ariannol. |
| **Cyd-bwyllgorau, cronfeydd cyfunol a chydweithredu**<br>Mae'r Cyngor yn cydweithio â sefydliadau eraill mewn nifer o feysydd ac yn arwain rhai prosiectau.<br>Mae risgiau posibl (ee, risgiau ariannol, risg i enw da, risg o ran llywodraethu) i'r Cyngor os nad yw'n rheoli'r cydberthnasau hyn yn effeithiol ac yn cyfrif amdanynt yn gywir yn ei Gyfrifon. | Byddaf yn adolygu prosesau a systemau'r Cyngor er mwyn cydweithio ag eraill.<br>Byddaf hefyd yn adolygu'r datganiadau cyfrifyddu a'r datgeliadau a wnaed mewn perthynas â threfniadau o'r fath er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod 2012-13. |

## Y defnydd o adnoddau

**17.** Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran y trefniadau a sefydlwyd gan y Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, byddaf yn dibynnu ar y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol y Cyngor, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredin ôl, gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ardystiadau o hawliadau a ffurflenni ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle y bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

# Cyflwyno adroddiadau

**18.** Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol perthnasol. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau ffurfiol gael eu cyflwyno ar gamau amrywiol yn ystod yr archwiliad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

**19.** Yn benodol, rhaid i archwilwyr nodi'r canlynol:

- cydberthnasau a all ddylanwadu ar annibyniaeth yr archwilydd;
- gwybodaeth am gynllunio'r archwiliad;  a
- materion penodol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (sy'n wahanol i reolwyr) cyn iddynt roi barn ar y datganiadau ariannol.

**20.** Mae Atodiad 1 yn tynnu sylw at elfennau allweddol o'r broses archwilio yn y Cyngor, a chadarnhaf nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i'm hannibyniaeth fel Archwilydd Penodedig nac annibyniaeth staff na chontractwyr sy'n gweithio i mi.

**21.** Rhydd y ddogfen hon wybodaeth am gynllunio'r archwiliad.

**22.** Byddaf yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio, a lle bo angen, i'r Cabinet/Cyngor mewn modd amserol.

23. Byddaf yn darparu adroddiadau eraill, neu allbwn arall, fel y cytunir arnynt. Nodir y cerrig milltir allweddol yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Cerrig milltir allweddol

| Yr hyn y bwriedir ei gyflawni | Dyddiad cychwyn arfaethedig | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol | Mawrth 2013 | Ebrill 2013 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (ISA 260) | Awst 2013 | Medi 2013 |
| Barn Archwilio ar Ddatganiadau Ariannol 2012-13 | Medi 2013 | Medi 2013 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | Hydref 2013 | Tachwedd 2013 |

# Ffi archwilio

24. Y ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio ariannol 2012-13 yw £168,036 (ynghyd â TAW) ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Hydref 2013. Pennir y ffi hon ar yr un lefel ag yn 2011-12 ac mae'n unol â llythyr ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n seiliedig ar y model ffioedd sy'n seiliedig ar sero ar gyfer archwiliadau ariannol. Rydym wedi cael dyfarniad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ddiweddar ynglŷn â newidiadau yn statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2013. Rydym wrthi'n trafod union gwmpas y dyfarniad hwn gyda CThEM a byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân cyn hir er mwyn esbonio goblygiadau'r dyfarniad hwn.

25. Mewn blynyddoedd blaenorol, ni fu unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol i ddatganiadau ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, caf nifer o ymholiadau ac eitemau o ohebiaeth gan y cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb. Mae ychydig o amser wedi'i gynnwys yn y ffi i ymdrin â mân ymholiadau, fel rhan o'r broses gyffredinol o reoli'r archwiliad.

26. Bydd unrhyw ymchwiliadau manwl neu waith arall sydd angen ei gyflawni i ymateb i ymholiadau a gwrthwynebiadau yn arwain at ffi ychwanegol. Codir unrhyw ffi ychwanegol o'r fath ar gyfraddau dyddiol yn seiliedig ar y radd neu gymysgedd sgiliau penodol sydd ei angen ar gyfer y gwaith, ond trafodir hyn gyda'r Cyngor cyn ymgymryd â'r gwaith.

27. O ran pob grant neu ffurflen, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol adennill swm sy'n cwmpasu cost lawn y gwaith perthnasol a gyflawnir. Caiff y ffi ar gyfer gwaith ardystio grantiau a ffurflenni ei chodi ar sail ddyddiol, yn unol â'r graddfeydd ffioedd sy'n ymwneud â sgiliau a nodir yn llythyr ffioedd llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol. Bydd y ffioedd yn adlewyrchu maint, cymhlethdod a materion neilltuol y grantiau penodol.

28. Er bod gwaith ardystio grant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ar sail profiad blaenorol ac arwyddion cynnar o newidiadau mewn cynlluniau ac amodau grant, amcangyfrifaf y bydd cyfanswm ffi'r gwaith grant rhwng £100,000 a £130,000.

# Atodiad 1

## Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio

| Elfennau allweddol | Gofynion | Sefyllfa yn y [Cyngor/Awdurdod] |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau ymgysylltu** | | |
| Telerau'r gwaith archwilio | Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldeb am benodi archwilwyr allanol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. | Nodir rolau a chyfrifoldebau archwilwyr penodedig uchod ac yn yr atodiad hwn.<br>Gellir gweld y Datganiad llawn o Gyfrifoldebau yn:<br>http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Statement_of_responsibilities_of_auditors_2010_Welsh.pdf |
| Penodi archwilwyr ac arweinwyr ymgysylltu | Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol yw penodi archwilwyr allanol llywodraeth leol a phennu cyfrifoldeb am bob ymgysylltiad i arweinydd ymgysylltu. | Rhoddir manylion yr Archwilydd Penodedig a'r Arweinydd Ymgysylltu yn Atodiad 2 i'r ddogfen hon. |
| Gwaith dewisol drwy gytundeb | Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meini prawf clir ar gyfer cymeradwyo unrhyw<br>waith dewisol y gofynnir amdano gan gyrff a archwilir. | Ni ofynnwyd am unrhyw waith dewisol ac nid oes unrhyw waith o'r fath yn yr arfaeth. |
| **Ystyriaethau moesegol** | | |
| Annibyniaeth | Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig ystyried y canlynol:<br>• bygythiadau i annibyniaeth yr archwilydd (gan gynnwys ymgyfreitha);<br>• cydberthnasau teuluol a chydberthnasau personol eraill;<br>• cysylltiad hirdymor â'r corff a archwilir (gweler polisi Swyddfa Archwilio Cymru o gylchdroi archwiliadau); a<br>• materion dadleuol neu anodd. | Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i'm hannibyniaeth fel Archwilydd Penodedig nac i annibyniaeth staff na chontractwyr sy'n gweithio i mi, ac fy mod wedi cydymffurfio â pholisi cylchdroi Swyddfa Archwilio Cymru.<br>Mewn achosion lle mae gan staff archwilio eraill gysylltiadau â'r Cyngor, rhoddir trefniadau lliniaru ar waith i sicrhau bod ei statws annibynnol yn parhau. |
| Perfformiad ymgysylltu | Mae angen i arweinwyr ymgysylltu ystyried pa lefel o sicrwydd ansawdd a lefelau adolygu sy'n briodol. | Mae gweithdrefnau adolygu rheoli ansawdd Swyddfa Archwilio Cymru ar waith ar gyfer yr archwiliad, ac mae'r Arweinydd Ymgysylltu wedi pennu lefelau adolygu priodol yn seiliedig ar brofiad y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith archwilio. |

# Atodiad 2

## Tîm yr archwiliad ariannol

Yr Archwilydd Penodedig yw Anthony Barrett, a'r tîm archwilio yw:

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Arweinydd Ymgysylltu'r Archwiliad Ariannol | 029 2032 0500 | derwyn.owen@wao.gov.uk |
| Amanda Hughes | Rheolwr yr Archwiliad | 01244 525970 | amanda.hughes@wao.gov.uk |
| Alan Hughes | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 01244 525970 | alan.hughes@wao.gov.uk |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

# **Cronfa Bensiwn Gwynedd**

**Blwyddyn archwilio:** 2012-13

**Cyhoeddwyd:** Mawrth 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 198A2013

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cronfa Bensiwn Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

I'r graddau a ganiateir yn ôl y gyfraith, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golledion yr aed iddynt gan unrhyw aelod, swyddog neu gyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti o ganlyniad i ddefnyddio'r ddogfen hon.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Anthony Barrett ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cynnwys


Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

| | |
|---|---|
| Rolau a chyfrifoldebau | 4 |
| Y dull archwilio | 5 |
| Cyflwyno adroddiadau | 7 |
| Ffi archwilio | 8 |
| Materion eraill | 8 |

Atodiadau

| | |
|---|---|
| Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio | 9 |
| Tîm yr archwiliad ariannol | 10 |

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

## Rolau a chyfrifoldebau

1. Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa Bensiwn). Paratowyd yr Amlinelliad hwn o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i'r Cyngor o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer cyfrifon y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2012-13.
2. O dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am benodi archwilwyr allanol (Archwilwyr Penodedig) ar gyfer cyrff llywodraeth leol.
3. Fel Archwilydd Penodedig, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried ac ardystio cyfrifon y Gronfa Bensiwn. Yn unol â safonau proffesiynol sy'n gymwys yn rhinwedd y Cod Ymarfer Archwilio a bennwyd o dan y ddeddf, mae hyn yn cynnwys rhoi barn ar b'un a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn a'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y flwyddyn. Mae'r ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi fodloni fy hun o ran y pethau hyn:
   - bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â rheoliadau o dan adran 39 o'r ddeddf (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005);
   - bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt;
   - bod arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon.
4. Mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
5. Nid yw'r archwiliad yn golygu nad oes angen i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldeb o ran y Gronfa Bensiwn i:
   - roi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
   - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
   - paratoi cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
   - sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
6. Nodir gofynion allweddol yr Archwilydd Cyffredinol a'r Archwilydd Penodedig yn Atodiad 1.

# Y dull archwilio

**7.** Rhoddir gwybodaeth am dîm yr archwiliad ariannol yn Atodiad 2.

## Archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn

**8.** Deallaf y caiff rheolaethau mewnol eu cynllunio, eu gweithredu a'u cynnal gan y Gronfa Bensiwn i fynd i'r afael â risgiau busnes a nodir sy'n bygwth y gallu i gyflawni amcanion corff a archwilir o ran:

- dibynadwyedd ei adroddiadau ariannol;
- effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei weithrediadau;
- ei gydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau cymwys.

**9.** Byddaf yn:

- asesu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol lefel uchel a rheolaethau mewnol lefel systemau allweddol i atal a chanfod gwallau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu;
- asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol;
- datblygu gweithdrefnau cadarn i ymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â chamddatganiadau perthnasol yng nghyfrifon y Gronfa Bensiwn.

**10.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod cyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig yn gywir ac yn deg, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rwyf yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yng nghyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig, sef y camddatganiadau hynny a allai gamarwain unigolyn sy'n darllen y cyfrifon.

**11.** Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Cyngor cyfan (y Pwyllgor Archwilio) cyn cwblhau'r archwiliad.

## Risgiau sy'n gysylltiedig â chamddatganiadau perthnasol yng nghyfrifon y Gronfa Bensiwn

**12.** Mae Arddangosyn 1 yn rhoi gwybodaeth am y prif risgiau gweithredol ac ariannol a wynebir gan y Gronfa Bensiwn a allai effeithio ar fy archwiliad. Dyma'r prif risgiau a nodais yn ystod y broses gychwynnol o gynllunio'r archwiliad, yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â hwy. Mae'n bosibl y bydd angen i mi newid y cynllun archwilio os bydd unrhyw risgiau newydd yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun archwilio heb eu trafod yn gyntaf â swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

## Arddangosyn 1: Crynodeb o'r prif faterion archwilio a'r ymatebion arfaethedig

| Materion | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli** | |
| Mae'n ofynnol i Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol gynhyrchu datganiadau cydymffurfio. Mae'r datganiadau hyn yn rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol yr awdurdod.<br>Ceir risg bod yr awdurdod yn methu ag adolygu'r datganiad yn rheolaidd ac, o ganlyniad, nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cwmpasu trefniadau llywodraethu'r Gronfa Bensiwn yn briodol. | Byddaf yn adolygu cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn sicrhau bod ei gynnwys yn gyson â'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth o drefniadau llywodraethu'r awdurdod, gan gynnwys y trefniadau hynny sy'n cwmpasu'r gronfa bensiwn. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol** | |
| Penodir rheolwyr buddsoddi allanol i reoli'r portffolio buddsoddi. Bydd eu systemau a'u cofnodion eu hunain yn creu nodiadau cyfrifon a wneir i gyfrif y Gronfa Bensiwn a'r datganiad o asedau net.<br>Mae rheolwyr cronfeydd allanol yn darparu adroddiadau rheolaeth fewnol ar y buddsoddiadau a ddelir ar ran y Gronfa Bensiwn. Yn nodweddiadol, mae'r rhain yn rhoi sicrwydd i'r Gronfa Bensiwn ar ystod eang o reolaethau e.e. prisio'r portffolio buddsoddi a ddelir. O safbwynt archwiliad allanol, mae'r rheolaethau hyn yn bwysig, yn arbennig o ran buddsoddiadau Lefelau 2 a 3 lle nad yw dyfynbrisiau'r farchnad ar gael; er enghraifft, lle y caiff offeryn ei fasnachu mewn marchnad nad ystyrir yn un weithredol. | Caf gadarnhad uniongyrchol gan reolwyr y gronfa ynghylch balansau buddsoddi diwedd y flwyddyn, a byddaf yn ystyried a yw adroddiadau rheolaeth fewnol y rheolwyr buddsoddi yn nodi risgiau penodol i'r balansau hyn.<br>Byddaf hefyd yn asesu a yw adroddiadau'r rheolwr buddsoddi ar reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd ynghylch ystod eang o reolaethau perthnasol gan gynnwys prisio buddsoddiadau a ddelir. |
| Yn fy archwiliadau blaenorol nodwyd bod angen gwella'r broses i gyfrifo'r newid yng ngwerth y farchnad yn annibynnol er mwyn sicrhau nad yw ffigur cydbwyso yn cuddio gwallau sylfaenol ym malansau a datgeliadau'r cyfrifon. | Byddwn yn asesu'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer paratoi cyfrifon 2012-13 ac yn cynnal profion archwilio i wneud gwaith dilynol yn benodol ar y mater hwn. |

| Materion | Camau gweithredu arfaethedig |
| --- | --- |
| Gwnaeth Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2009 rai newidiadau sylwedddol i'r Rheoliadau a oedd gynt ar waith. Cyn 1 Ebrill 2010, o dan Reoliadau 1998, gallai awdurdodau gweinyddu fenthyca arian o'r gronfa bensiwn i ddiwallu eu hanghenion ariannu.<br>Mae llawer o awdurdodau gweinyddu yn cyfuno gwarged arian parod eu cronfeydd pensiwn ag arian yr awdurdod ei hun at ddibenion gwneud buddsoddiad.<br>Lle mae trefniadau cyfuno ar waith, mae rheidrwydd ar awdurdodau gweinyddu i lunio trefniadau cyfuno sy'n unol â rheoliad 3(4) o reoliadau 2009. | Byddaf yn adolygu gweithdrefnau rheoli llif arian parod a buddsoddi y gronfa bensiwn ac yn adolygu cydymffurfiaeth â datganiad egwyddorion y gronfa bensiwn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion rheoliadau 2009.<br>Byddaf hefyd yn adolygu arferion a gweithdrefnau rheoli trysorlys y Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb y broses o'u rhoi ar waith gyda'r gronfa bensiwn. |

# Cyflwyno adroddiadau

**13.** Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol perthnasol. Mae Safonau Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau ffurfiol gael eu cyflwyno ar gamau amrywiol yn ystod yr archwiliad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

**14.** Yn benodol, rhaid i archwilwyr nodi'r canlynol:

- cydberthnasau a all ddylanwadu ar annibyniaeth yr archwilydd;
- gwybodaeth am gynllunio'r archwiliad;
- materion penodol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (sy'n wahanol i reolwyr) cyn iddynt roi barn ar y datganiadau ariannol.

**15.** Mae Atodiad 1 yn tynnu sylw at elfennau allweddol y broses archwilio yn y Gronfa Bensiwn, a chadarnhaf nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i'm hannibyniaeth fel Archwilydd Penodedig nac annibyniaeth staff na chontractwyr sy'n gweithio i mi.

**16.** Rhydd y ddogfen hon wybodaeth am gynllunio'r archwiliad.

**17.** Byddaf yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a, lle bo angen, i'r Cabinet/Cyngor mewn modd amserol.

**18.** Byddaf yn darparu adroddiadau neu allbynnau eraill, fel y cytunwyd arnynt. Nodir y cerrig milltir allweddol yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Cerrig Milltir Allweddol

| Yr hyn y bwriedir ei gyflawni | Dyddiad cychwyn arfaethedig | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol | Mawrth 2013 | Mawrth 2013 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (ISA 260) | Gorffennaf 2013 | Medi 2013 |
| Barn Archwilio ar Ddatganiadau Ariannol 2012-13 | Mehefin 2013 | Medi 2013 |

# Ffi archwilio

**19.** Y ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio ariannol 2012-13 yw £25,095 (ynghyd â TAW) ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Hydref 2013. Mae'r ffi hon yn unol â llythyr ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n seiliedig ar y model ffioedd sy'n seiliedig ar sero ar gyfer archwiliadau ariannol. Rydym wedi cael dyfarniad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ddiweddar ynglŷn â newidiadau yn statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2013. Rydym wrthi'n trafod union gwmpas y dyfarniad hwn gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân cyn hir er mwyn esbonio goblygiadau'r dyfarniad hwn.

# Materion eraill

## Adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn

**20.** Yn ogystal â chynnwys cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn eu prif Ddatganiad o Gyfrifon, mae'n ofynnol i awdurdodau gweinyddu gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Gronfa Bensiwn ac mae'n rhaid iddo gynnwys cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

**21.** Mae'n ofynnol i mi ddarllen yr adroddiad blynyddol ar y Gronfa Bensiwn ac ystyried a yw'r wybodaeth ynddo yn gyson â chyfrifon y Gronfa Bensiwn.

**22.** Byddaf hefyd yn cyhoeddi datganiad archwilio yn cadarnhau bod y cyfrifon yn yr adroddiad blynyddol yn gyson â chyfrifon archwiliedig y Gronfa Bensiwn a geir yn Natganiad Cyfrifon yr awdurdod gweinyddu.

# Atodiad 1

## Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio

| Elfennau allweddol | Gofynion | Sefyllfa o ran Cronfa Bensiwn Gwynedd |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau ymgysylltu** | | |
| Telerau'r gwaith archwilio | Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldeb am benodi archwilwyr allanol llywodraeth leol yng Nghymru. | Nodir rolau a chyfrifoldebau archwilwyr penodedig uchod.<br>Gellir gweld y Datganiad llawn o Gyfrifoldebau yn: http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Statement_of_responsibilities_of_auditors_2010_Welsh.pdf |
| Penodi archwilwyr ac arweinwyr ymgysylltu | Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol yw penodi archwilwyr allanol llywodraeth leol a phennu cyfrifoldeb i arweinydd ymgysylltu am bob ymgysylltiad. | Rhoddir manylion yr Archwilydd Penodedig a'r Arweinydd Ymgysylltu yn Atodiad 2 i'r ddogfen hon. |
| Gwaith dewisol drwy gytundeb | Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meini prawf clir ar gyfer cymeradwyo unrhyw<br>waith dewisol y gofynnir amdano gan gyrff a archwilir. | Ni ofynnwyd am unrhyw waith dewisol ac nid oes unrhyw waith o'r fath yn yr arfaeth. |
| **Ystyriaethau moesegol** | | |
| Annibyniaeth | Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig ystyried y canlynol:<br>• bygythiadau i annibyniaeth yr archwilydd (gan gynnwys ymgyfreitha);<br>• cydberthnasau teuluol a chydberthnasau personol eraill;<br>• cysylltiad hirdymor â'r corff a archwilir (gweler polisi Swyddfa Archwilio Cymru o gylchdroi archwiliadau);<br>• materion dadleuol neu anodd. | Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i'm hannibyniaeth fel Archwilydd Penodedig nac i annibyniaeth staff na chontractwyr sy'n gweithio i mi, ac fy mod wedi cydymffurfio â pholisi cylchdroi Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Perfformiad ymgysylltu | Mae angen i arweinwyr ymgysylltu ystyried pa lefel o sicrwydd ansawdd a lefelau adolygu sy'n briodol. | Mae gweithdrefnau adolygu rheoli ansawdd Swyddfa Archwilio Cymru ar waith ar gyfer yr archwiliad, ac mae'r Arweinydd Ymgysylltu wedi pennu lefelau adolygu priodol yn seiliedig ar brofiad y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith archwilio. |

# Atodiad 2

## Tîm yr archwiliad ariannol

Yr Archwilydd Penodedig yw Anthony Barrett, a'r tîm archwilio yw:

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Arweinydd Ymgysylltu'r Archwiliad Ariannol | 02920 320651<br>07909 882609 | derwyn.owen@wao.gov.uk |
| Amanda Hughes | Rheolwr yr Archwiliad | 07969 919986 | amanda.hughes@wao.gov.uk |
| Alan Hughes | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 07791 411985 | alan.hughes@wao.gov.uk |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk